



EITEM AR YR AGENDA: 9

PANEL GWEITHREDOL AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

17 Medi 2012

DATGANIAD O GYFRIFON 2011-12

Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd i'r Awdurdod

Diben yr Adroddiad

- 1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig 2011-12 a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol i'r Aelodau cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i'w cymeradwyo ar 24 Medi 2012.
- 2 Trwy gyflwyno'r cyfrifon i'r ddau bwyllgor, sicrhair bod pob Aelod o'r Awdurdod wedi cael cyfle i edrych ar y set ddiweddaraf o'r cyfrifon ac i roi sylwadau arnynt.

Gwybodaeth

- 3 Yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio Cymru) 2010 mae'n ofynnol fod y cyfrifon archwiliedig yn cael eu cymeradwyo gan Aelodau erbyn 30 Medi. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo'r cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio.
- 4 Mae hefyd yn ofynnol fod y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol (atodiad 1) yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau gyda'r Datganiad o Gyfrifon ac atodir y ddogfen i'r cyfrifon. Paratowyd y datganiad yn unol â'r egwyddorion sydd yn y fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid

Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE) ac fe'i cymeradwywyd gan Aelodau ar 18 Mehefin 2012.

- 5 Hefyd yn y cyfarfod ar 18 Mehefin 2012, cyflwynwyd adroddiad Perfformiad Ariannol am 2011-12 i'r Aelodau, ac roedd yn nodi'r union wariant am y flwyddyn o'i gymharu â'r gyllideb, a cheisiwyd cymeradwyaeth yr Aelodau i roi arian o'r tanwariant o'r neilltu mewn i nifer o gronfeydd wrth gefn a darpariaethau. Mae'r trafodion hyn wedi'u nodi yn y cyfrifon a cheir y manylion ar dudalennau 30 a 31.

Newidiadau wedi Archwilio

- 6 Mae'r cyfrifon bellach wedi cael eu harchwilio gan yr Archwilydd a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac maent wedi eu diwygio yn unol â chanfyddiadau'r archwiliad a'r trafodaethau a gafwyd wedyn ynglŷn â thrin y cyfrifon, diffiniadau a'r modd y cyflwynir eitemau penodol o fewn y cyfrifon.
- 7 Mae dadansoddiad manwl o'r camddatganiadau a welwyd yn y cyfrifon drafft ac a gywirwyd, yn rhan o'r 'Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol' a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio gyda'r cyfrifon. Rhestrir crynodeb o'r newidiadau isod.
 - a) Ailddosbarthu cronfa o Ddefnyddadwy i Annefnyddadwy, £25k;
 - b) Dyblygu cronïad – gostwng y balansau Dyledwyr a Chredydwyr 79k;
 - c) Newid i rai o'r ffigyrau a thablau sydd yn y nodiadau i'r cyfrifon er mwyn cywiro rhai camgymeriadau a gwella'r cyflwyniad.
- 8 Mae cronfeydd wrth gefn defnyddadwy yn cynnwys y gronfa wrth gefn cyffredinol, y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ac incwm grant sydd wedi'i barhau o'r flwyddyn flaenorol. Gall yr Awdurdod ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn i ariannu gwariant mewn blynyddoedd i ddod. Mae cronfeydd wrth gefn annefnyddadwy yn anariannol ac yn cynnwys arian sydd eisoes wedi'i roi i'r neilltu i ariannu gwariant a wyddys amdano, er enghraifft, ailbrizio i adlewyrchu'r cynnydd mewn gwerth asedau; a'r Gronfa Pensiwn sy'n gronfa wrth gefn diffyg.

Cyflwyno'r Cyfrifon

- 9 Cyflwynir y cyfrifon yn fanwl i'r Pwyllgor Archwilio fel y pwyllgor sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon. Bydd y cyflwyniad yn cynnwys manylion perfformiad ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn a sut mae hyn yn trosi i'r cyfrifon terfynol a baratoir yn unol â'r Safonau IFRS. Mae croeso i Aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio ddod i'r cyfarfod os ydynt yn dymuno rhagor o esboniad am y cyfrifon.

Argymhelliad

- 10 Bod yr Aelodau'n nodi'r Datganiad o Gyfrifon am 2011-12, a bod unrhyw sylwadau ar y cyfrifon yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor Archwilio.

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru –Datganiad o Gyfrifon 2011-12

TABL CYNNWYS

	<u>RHIF TUD.</u>
Rhagair Esboniadol ac Adolygiad o Wariant	1-6
Datganiad o Gyfrifoldebau / Tystysgrif y Trysorydd	7
Adroddiad yr Archwiliad	8-9
Datganiadau Craidd	
Datganiad ar y Symudiad mewn Cronfeydd	10
Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant	11
Y Fantolen	12
Datganiad Llif Arian	13
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	
Datganiad o Bolisiau Cyfrifyddu	14-20
Nodyn 1 - Crebwyll wrth ddilyn Polisiâu Cyfrifyddu	21
Nodyn 2 - Tybiannau a wneir am y Dyfodol a Ffynonellau Pwysig Eraill o Ansicrwydd wrth Amcangyfrif	21
Nodyn 3 - Eitemau Pwysig o Incwm a Gwariant	21
Nodyn 4 - Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen	21
Nodyn 5 - Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Chyllido dan Reoliadau	22-23
Nodyn 6 - Trosglwyddiad i ac o'r Cronfeydd a Neilltuwyd	24
Nodyn 7 - Gwariant ac Incwm Gweithredu Eraill	24
Nodyn 8 - Incwm a Buddsoddi Ariannu a Buddsoddi	24
Nodyn 9 - Eiddo, Peiriannau, Offer ac Asedau Anniriaethol	24-26
Nodyn 10 - Addasiadau Ariannol	26-28
Nodyn 11 - Gwerth Teg o Asedau ac Ymrwymadau ar Gost wedi ei Amorteiddio	28-29
Nodyn 12 - Rhestrau stoc	29
Nodyn 13 - Dyledwyr Tymor Byr	29
Nodyn 14 - Arian a Chyferwerth ag Arian	30
Nodyn 15 - Credydwyr	30
Nodyn 16 - Darpariaethau	30
Nodyn 17 - Cronfeydd Defnyddadwy	31
Nodyn 18 - Cronfeydd Annefnyddadwy	32-34
Nodiadau 19 i 21-Datganiad Llif Arian–Gweithgarwch Gweithredu, Buddsoddi ac Ariannu	35-36
Nodyn 22 - Symiau a Adroddwyd ar gyfer Dyrannu Adnoddau	36-38
Nodyn 23 - Gweithrediadau Masnachu	38
Nodyn 24 - Lwfansau Aelodau	39
Nodyn 25 - Taliadau i Swyddogion	39-40
Nodyn 26 - Ffioedd Archwilio	40
Nodyn 27 - Grantiau	41
Nodyn 28 - Partïon Cysylltiedig	42
Nodyn 29 - Gwariant Cyfalaf ac Ariannu	42-43
Nodyn 30 - Lesoedd	43-44
Nodyn 31 - Buddion Terfynu	44
Nodyn 32 - Trafodion yn ymwneud â Buddion Ôl-gyflogi	44-49
Nodyn 33 - Natur a Maint y Risg sy'n deillio o Offerynnau Ariannol	49-50
Nodyn 34 - Ymrwymadau wrth gefn	50
Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân	51-52

RHAGAIR ESBONIADOL

1. Mae'r cyfarwyddyd gweithredol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i'w cael yn y Fframwaith Cenedlaethol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn ceisio ehangu rôl y Gwasanaethau Tân ac Achub o safbwynt atal, addysgu ac ymwneud â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, gan sicrhau'r un pryd nad amherir ar eu gallu i ymladd tanau. Fel gyda phob Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Awdurdod Tân yn wynebu llai o arain yn y blynyddoedd i ddod, a'r her i'r Awdurdod yw darparu lefelau derbyniol o wasanaeth o fewn y cyfyngiadau hynny heb beryglu diogelwch y cyhoedd.

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru yn paratoi cynlluniau gweithredu blynyddol er mwyn lleihau'r risgiau a gwella gwasanaethau, gyda phwyslais cynyddol ar atal ac addysgu. Mae'r Gwasanaeth yn weithgar gyda'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, enghraifft o hyn yw nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gwblhaodd y Gwasanaeth, sef 28,472 yn 2011/12. Mae'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau brys eraill, er enghraifft rheolir y portffolio eiddo gan Adran Rheoli Cyfleusterau ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, ac mae Ystafell Reoli'r Gwasanaeth Tân mewn adeilad sy'n cael ei rannu gyda'r Heddlu yn Llanelwy. Mae'r Awdurdod hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o brosiectau eraill sy'n adlewyrchu amcanion y Fframwaith Cenedlaethol, er enghraifft Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc sy'n cael ei rhedeg gan ddiffoddwyr tân pan nad ydynt ar ddyletswydd, gyda changhennau ledled y Gogledd; prosiect y Ffenics sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda phobl ifanc yn yr ardal; ac Addysg Diogelwch ar y Ffyrdd mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru trwy nifer o ddigwyddiadau Effeithiau Angheuol trwy'r Gogledd.

Mae Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn gyhoeddiad sy'n ofynnol dan y gyfraith; a'i ddiben yn bennaf yw darparu gwybodaeth glir ynghylch sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru am y flwyddyn ariannol 2011-12.

- 2(a). Dyma'r datganiadau, a'u dibenion:-

(i) **Datganiad o gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon**

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd a ddelir gan yr awdurdod, wedi eu dadansoddi yn 'gronfeydd defnyddadwy' (h.y. y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol) a chronfeydd eraill wrth gefn. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darpariaeth Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r awdurdod, a dangosir rhagor o fanylion yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n rhaid eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol a ariennir gan gyfraniadau gan y chwe Awdurdod Cyfansoddol. Mae'r Cynnydd / Gostyngiad Net cyn y llinell Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd a Neilltuwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol statudol cyn unrhyw drosglwyddiadau a wnaed gan yr Awdurdod yn ôl disgrisiwn i neu o'r cronfeydd a neilltuwyd.

(ii) **Y Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant**

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost cyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu gan gyfraniadau. Mae gwariant yr Awdurdod yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn unol â'r rheoliadau; gallai hyn fod yn wahanol i'r gost cyfrifyddu. Dangosir sefyllfa'r cyfraniad yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd.

(iii) **Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol (Y Fantolen)**

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r ymrwymadau a gydnabyddir gan yr Awdurdod fel yr oeddent ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymadau) yn cael eu cyfateb gan y cronfeydd wrth gefn sydd gan yr awdurdod. Adroddir ynghylch y cronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf yn gronfeydd y gellir eu defnyddio, h.y. y cronfeydd y gallai'r Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn ddibynol ar yr angen i gadw lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (e.e. y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf na ellir ei defnyddio ond i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Yr ail gategori o gronfeydd yw'r rhai nad yw'r Awdurdod yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a colledion heb eu gwireddu (e.e. y Gronfa Ailwerthuso), lle na fyddai symiau ond yn dod ar gael i ddarparu gwasanaethau petai'r asedau'n cael eu gwerthu; a chronfeydd sy'n dal gwahaniaethau o ran amseru a ddangosir yn y llinell Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd, sef 'Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu dan y rheoliadau'.

(iv) **Datganiad Llif Arian**

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian a chyfwerth ag arian yr awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r awdurdod yn creu ac yn defnyddio arian a chyfwerth ag arian trwy gategoreiddio llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n codi o'r gweithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu trwy gyfraniadau ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod. Mae'r gweithgareddau buddsoddi yn dangos y graddau y mae'r all-lifiadau arian wedi eu gwneud ar gyfer adnoddau sydd â'u bwriad o gyfrannu at y modd y gall yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r llifiadau arian sy'n codi o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragweld ceisiadau o lifiadau arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthycia) i'r Awdurdod.

(vii) **Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân**

Mae hyn yn dangos sefyllfa ariannol cyfrif cronfa pensiwn y Diffoddwyr Tân, gan nodi a oes arian yn ddyledus i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru neu iddi, a hynny er mwyn cael balans yn y cyfrif, ynghyd â manylion am ei asedau net.

(vi) **Datganiad o gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon**

Mae hwn yn gosod cyfrifoldebau priodol yr Awdurdod a'i swyddogion am lunio a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

(vii) **Nodiadau i'r Datganiadau Cyfrifyddu**

Mae'r nodiadau'n cyflwyno gwybodaeth am sail llunio'r datganiadau ariannol a'r polisiâu cyfrifyddu penodol a ddefnyddiwyd. Maent yn rhoi gwybodaeth na chyflwynir yn unlle arall yn y datganiadau ariannol, ac maent yn berthnasol er mwyn deall y cyfrifon.

- 2(b). Mae'r Datganiad Symudiad ar Gronfeydd, y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a Chyfrif y Gronfa Bensiwn yn cael eu cefnogi gan nodiadau sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol. Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cwrdd â gofynion y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010-11 (y Cod) a Chod Ymarfer Adrodd y Gwasanaeth (SeRCOP) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), a'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a Diwygiadau 2007 i'r Rheoliadau.

3. CRYNODEB O FLWYDDYN ARIANNOL 2011-2012

Gwariant Refeniw 2011-2012

Cymeradwywyd cyllideb o £31,932,654 ar gyfer y flwyddyn gan Aelodau'r Awdurdod. Yn Nodyn 22, ceir rhagor o fanylion am y gwariant gweithredol, sef gwariant gwirioneddol yr Awdurdod heb y newidiadau cyfrifyddu. Roedd y gwariant gwirioneddol yn is na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer, a llwyddwyd i gael hyn trwy gwtogi ar y gwariant lle bo modd er mwyn lliniaru'r pwysau a ddisgwyllir yn 2012-13. Roedd modd i'r Awdurdod neilltuo £503k i gronfa gyffredinol a fydd yn darparu rhywfaint o sicrwydd bod arian ar gael i gynorthwyo mewn blynyddoedd i ddod ac a fydd yn golygu y gall yr Awdurdod dynnu o'r cronfeydd hyn yn hytrach na gorfod gofyn am ardollau ychwanegol.

	Cyllideb £000	Gwir £000	Amrywiant £000
Refeniw			
Gwariant	32,256	31,147	(1,109)
Incwm	(323)	(318)	5
Gwariant Net	31,933	30,829	(1,104)
Cronfeydd a Darpariaethau a Neilltuwyd	0	601	601
Cyfraniadau Awdurdodau Unedol	(31,933)	(31,933)	0
(Gwarged) /Diffyg	0	(503)	(503)
Cyfalaf			
(gan gynnwys llithriant a ddygwyd drosodd)	7,320	4,491	(2,829)

Cysoni 'Gwarged y Refeniw' gyda'r Gwarged ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau

	£'000
*Gwariant Net	30,829
**Addasiadau Cyfrifyddu	577
***Cost Gwasanaethau	31,406

*ceir manylion yn Yr Alldro ar gyfer y Flwyddyn 2011/12 (uchod)

**ceir manylion yn Nodyn 22

***ceir manylion yn y Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant

Mae'r Awdurdod yn mynd i wariant refeniw ar eitemau a ddefnyddir o fewn y flwyddyn fel arfer, a chaiff hyn ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod lleol cyfansoddol yn ôl y boblogaeth. Dyma'r cyfraniadau yn 2011-12:

Awdurdod	Cyfraniad 2011/2012 £	Cyfran %
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	5,240,568	16.41
Cyngor Sir Ynys Môn	3,236,545	10.14
Cyngor Gwynedd	5,588,685	17.50
Cyngor Sir Ddinbych	4,549,039	14.25
Cyngor Sir y Fflint	7,051,716	22.08
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	6,266,101	19.62
CYFANSWM	31,932,654	

Derbyniodd yr Awdurdod nifer o grantiau refeniw gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn er mwyn hyrwyddo gwahanol gynlluniau yn y Gogledd. Cyfanswm y grantiau a dderbyniwyd oedd £2.69 miliwn (£1.78 miliwn yn 2010-11). Ceir manylion am y grantiau yn Nodyn 27 i'r cyfrifon.

Ffynonellau Refeniw Cyllid sydd yn y Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant

2010/11 £'000		2011/12 £'000
32,093	Cyfraniadau'r Awdurdodau Unedol	31,933
0	Grantiau Refeniw	35
35	Llog	27
217	Ffioedd a Chostau	256

Gwariant Cyfalaf 2011-2012

Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn oedd £4.491 miliwn. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 29 i'r cyfrifon.

2010/11 £'000		2011/12 £'000
2,283	Eiddo – Adnewyddu, addasu, adeiladau newydd	1,349
3,113	Cerbydau a Pheiriannau	2,920
1,329	Offer yr Ochr Weithredol a TGCh	222
6,725	Cyfanswm y Gwariant Cyfalaf	4,491

Dan y Cod Materion Ariannol, gall yr Awdurdod ariannu'r rhaglen gyfalaf yn unol â pha ddull bynnag o ariannu sydd fwyaf cost-effeithiol. Yn 2011-12, ariannwyd y rhaglen gyfalaf yn bennaf gan fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac Awdurdodau Lleol eraill (£4,376k), grantiau (£94k) a Derbyniadau Cyfalaf (£21k).

Cyflwynwyd adroddiad manwl am weithgarwch ariannol y flwyddyn i'r Awdurdod Tân ar 18 Mehefin 2012, ac mae ar gael ar wefan y Gwasanaeth Tân (www.gwastan-gogcymru.org.uk).

Ymrwymiad Pensiynau

Yn 2011-12, ymddeolodd 9 aelod o staff lifrai amser cyflawn. Mae cost net Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân i'r gyllideb refeniw yn parhau i dyfu, ynghyd â'r ymrwymiad o ran pensiynau yn y dyfodol. Yr ymrwymiad a aseswyd yn actiwaraid ar 31 Mawrth 2012 oedd £206.63 miliwn ar gyfer cynllun pensiwn y Diffoddwyr Tân, a £7.563 miliwn i'r cynllun pensiwn Llywodraeth Leol.

Ers Ebrill 2011, mae codiadau yn nhaliadau pensiwn a phensiynau a ohiriwyd wedi cael eu cysylltu â chodiadau yn y Mynegai Pris Defnyddwyr (CPI) yn hytrach na Mynegai Pris Manwerthu (RPI). Gan fod disgwyl i'r codiadau i'r CPI yn y tymor hir fod yn llai na'r codiadau i'r RPI, y canlyniad fydd gostyngiad yn y rhwymedigaeth buddion diffiniedig a chost llog ar gyfer 2010-11 ac yn y dyfodol. Mae'r newid yn y mynegeio hefyd yn arwain at gostau gwasanaeth negyddol yn y gorffennol, gan adlewyrchu'r gostyngiad mewn rhwymedigaeth, a chredydir hynny ar gost net gwasanaethau fel costau heb eu dosbarthu yn 2010-11 yn unol â UITF Abstract 48, gwnaed credyd o £24 miliwn mewn perthynas â'r uchod. Nid oes unrhyw effaith ar y Gronfa Gyffredinol.

Dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 (Buddion Gweithwyr), mae gofyn i'r Awdurdod ddarparu manylion asedau ac ymrwymadau'r dyfodol ar gyfer pensiynau sy'n daladwy i weithwyr y gorffennol a'r presennol. Amlinellir hyn yn fanylach yn y datgeliadau i'r cyfrifon.

Cost neu gredyd perthnasol neu anarferol

Yn bennaf oherwydd ailstrwythuro'r staff gweinyddol sy'n rhoi cymorth i Orsafoedd y Ddyletswydd ar gael yn ôl y Galw, bu rhywfaint o wariant ychwanegol ar daliadau dileu swyddi, sef £171k, ac ni ddarparwyd ar gyfer hyn yn y gyllideb. Rhoddir y costau yn erbyn arbedion a geir yn y dyfodol oherwydd gostyngiad yn nifer swyddi staff yr ochr gefnogol. Ceir rhagor o fanylion am y taliadau dileu swyddi yn Nodyn 25 a 31 i'r cyfrifon.

Costau Ariannu Cyfalaf

Y gost a roddwyd ar gyfrifon refeniw'r gwasanaeth i adlewyrchu cost asedau sefydlog a ddefnyddiwyd i ddarparu gwasanaethau oedd £2.381 miliwn. Dyma gost dybiannol ar gyfer dibrisiant, a gwneir addasiad i'r balans diwedd blwyddyn fel nad yw'n effeithio ar y cyfraniadau sydd eu hangen i ariannu'r gwasanaeth. Y gost wirioneddol i'r gwasanaeth am gyfalaf ariannu yw £389k o log benthyciad, a £1,959k o Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a Darpariaeth Refeniw Gwirfoddol.

Mae'r cynnydd mewn benthyciad yn ddibynnol ar nifer o ffactorau; swm y gwariant cyfalaf i'w ariannu trwy fenthycia a dyled y benthyciad i'w dalu'n ôl fel rhan o'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Dyled benthyciad yr yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2012 oedd £20.724 miliwn.

Darpariaethau a Chronfeydd wrth gefn

Mae gan yr Awdurdod nifer o ddarpariaethau i ddiwallu sawl ymrwymiad i ddod yn sgîl digwyddiadau yn y gorffennol. Y balans ar ddechrau'r flwyddyn oedd £0.65 miliwn, ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd yn £0.82 miliwn. Roedd y symudiad yn y flwyddyn o ganlyniad i neilltuo arian ychwanegol i ymorol am gostau pensiynau yn y dyfodol, a'r ymrwymiad treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar setliad ôl-daliadau'r System Dyletswydd ar gael yn ôl y Galw. Caiff y taliad ei wneud ym Mehefin 2012 ar gyfer yr ôl-daliad hwnnw, a defnyddir rhywfaint o'r Ddarpariaeth Bensiwn yn 2011-2012.

Pasiwyd deddfwriaeth sy'n caniatáu i Awdurdodau Tân yng Nghymru gadw cronfeydd wrth gefn, a dyma'r drydedd flwyddyn y gellid gweithredu hyn. Rhoddwyd arian o'r neilltu mewn cronfa gan mai peth doeth i'r Awdurdod yw adeiladu Cronfa Gyffredinol, a'r disgwyl yw mai'r meysydd lle y caiff ei ddefnyddio fydd:-

- codiadau cyflog;
- gwrthbwysu cynnydd ym mhris tanwydd na chyllidebwyd ar ei gyfer;
- toriadau i'r Grant Cynnal Refeniw;
- ymorol am gostau unrhyw ymddeoliadau cynnar ar sail effeithlonrwydd;
- gostyngiad mewn arian grant;
- cynnydd yng nghyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr

Yn Nodiadau 16 ac 17 i'r datganiadau ariannol craidd, ceir rhagor o fanylion am y darpariaethau a'r cronfeydd a ddelir.

Effaith yr Hinsawdd Economaidd sydd ohoni

Roedd y dirywiad economaidd cenedlaethol, ynghyd â chanlyniadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ym mis Tachwedd 2010, yn rhoi arwydd o lefel y toriadau i wasanaethau cyhoeddus sydd i'w ddisgwyl yn y blynyddoedd i ddod. Er mwyn sicrhau y byddai'r Awdurdod yn gallu bodloni'r toriadau hyn a chynnal y lefelau gwasanaeth, cytunwyd ar gynllun tair blynedd, gan osod targedau arbedion i'w sicrhau dros y tair blynedd nesaf. 2011-12 oedd blwyddyn gyntaf y cynllun tair blynedd, a'r targed arbedion y cytunwyd arno oedd £802k. Roedd y rhan fwyaf o'r arbedion ar ofal tân rheng flaen trwy'r Adolygiad o Ofal Swyddogion. Ceir arbedion eraill trwy rewi rhywfaint o swyddi'r ochr gefnogol a diogelwch tân cymunedol; a pheidio ag ariannu digwyddiad blynyddol Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc. O fewn blwyddyn, rhoddwyd neges glir i ddeiliaid cyllidebau i weld ffyrdd i fod yn effeithlon ac i gael arbedion lle bo modd, nid yn unig yn y dyfodol ond hefyd o fewn y flwyddyn ariannol. Gyda'r mesurau hyn yn eu lle, mae'r Awdurdod wedi llwyddo i gyrraedd ei darged arbedion, ac i wneud arbedion pellach o fewn y flwyddyn.

Y targed arbedion y cytunwyd arno ar gyfer 2012-13 yw £815k, a £835k yn 2013-14, ac er bod gan yr Awdurdod gynlluniau yn eu lle i sicrhau'r arbedion hyn, efallai na fydd modd sicrhau'r arbedion o fewn yr amserlenni ac efallai y bydd llithriant. Fel bod gan yr Awdurdod rywfaint o ddiogelwch ariannol rhag hyn, cytunwyd y gellir defnyddio'r gronfa gyffredinol yn y tymor byr i ymorol am unrhyw ddiffyg.

4. GWYBODAETH YCHWANEGOL

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon hyn ar gael gan Drysorydd yr Awdurdod ym Modlondeb, Conwy. Hefyd, mae gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb hawl statudol i ddarllen y cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau. Hysbysebir yn y wasg leol, ac ar wefannau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (www.gwastan-gogcymru.org.uk) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (www.conwy.gov.uk), fod y cyfrifon ar gael i'w darllen.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEB AM Y DATGANIAD O GYFRIFON

CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod:

- wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn gywir ac i sicrhau bod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yr yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Trysorydd
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon

CYFRIFOLDEBAU'R TRYSORYDD

Y Trysorydd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod). Mae'n ofynnol i'r Datganiad o Gyfrifon gyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012.

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, mae'r Trysorydd wedi:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas, ac yna wedi eu defnyddio'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifiadau a oedd yn rhesymol a darbodus;
- cydymffurfio â Chod awdurdodau lleol.

Mae'r Trysorydd hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfoes;
- cymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac anghysonerau eraill.

TYSTYSGRIF Y TRYSORYDD **DATGANIAD O GYFRIFON 2011/2012**

Rwy'n tystio bod y cyfrifon yn darparu golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2012 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

ARWYDDWYD: _____ DYDDIAD: _____

K W FINCH CPFA IRRV (Hons)

Trysorydd Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Awdurdod Tân Gogledd Cymru; a
- Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd, y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian, a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol, ac mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Leol yn y Deyrnas Unedig 2011/12 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Cyfrifoldebau unigol y swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o Gyfrifon sydd ar dud. 7, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys cyfrifon y gronfa bensiwn, sy'n rhoi golwg gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu ac unrhyw nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â'r Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas yr archwiliad a'r datganiadau cyfrifyddu

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhydd o gamddataniadau pwysig, p'un ai oherwydd twyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o p'un ai yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Awdurdod Tân Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, ac wedi eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; natur resymol yr amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wneir gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Hefyd, rwyf wedi darllen yr holl wybodaeth ariannol ac annariannol yn y Rhagair Esboniadol er mwyn nodi unrhyw anghysonderau pwysig gyda'r datganiadau cyfrifyddu archwiliedig a'r nodiadau cysylltiedig. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau amlwg, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru fel yr oedd ar 31 Mawrth 2012, ynghyd â'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011/12.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi golwg gwir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012, ynghyd â swm a lleoliad asedau ac ymrwymadau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011/12.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth sydd yn y Rhagair Esboniadol am y flwyddyn arainnol y mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig wedi eu paratoi yn eu cylch, yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion yr wyf yn adrodd yn eu cylch trwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd ynghylch y Datganiad Llywodraethu yr wyf yn adrodd i chi os nad yw, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o ganlyniad i'm harchwiliad.

Ardystiad o gwblhau archwiliad

Rwy'n tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru,
24 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd,
CF11 9LJ

Medi 2012

DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

<u>Movement in Reserves Statement for the years ended 31 March 2011 & 2012</u>	Note	General Fund Balance	Earmarked and Grant Reserves	Capital Receipts Reserve	Total Usable Reserves	Unusable Reserves	Total Authority Reserves
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balance at 31 March 2010		418	288	0	706	(209,132)	(208,426)
Movement in Reserves during 2010/11							
Surplus or (Deficit) on the Provision of Services		11,272	0	0	11,272	0	11,272
Other Comprehensive Income & Expenditure		0	0	0	0	17,470	17,470
Total Comprehensive Income & Expenditure		11,272	0	0	11,272	17,470	28,742
Adjustments between accounting basis & funding basis under regulations	5	(10,820)	0	(39)	(10,859)	10,859	0
Net (Increase)/Decrease before Transfers to Earmarked Reserves		452	0	(39)	413	28,329	28,742
Adjustment		0	0	1	1	(1)	0
Transfers to/(from) Earmarked Reserves	6	(229)	191	38	0	0	0
(Increase)/Decrease in 2010/11		223	191	0	414	28,328	28,742
Balance as at 31 March 2011		641	479	0	1,120	(180,804)	(179,684)

<u>Movement in Reserves Statement</u>	Note	General Fund Balance	Earmarked and Grant Reserves	Capital Receipts Reserve	Total Usable Reserves	Unusable Reserves	Total Authority Reserves
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balance at 31 March 2011		641	479	0	1,121	(180,804)	(179,684)
Movement in reserves during 2011/12							
Surplus or (deficit) on the provision of services		(10,877)	0	0	(10,877)	0	(10,877)
Other Comprehensive Income & Expenditure		0	0	0	0	(6,763)	(6,763)
Total Comprehensive Income & Expenditure		(10,877)	0	0	(10,877)	(6,763)	(17,640)
Adjustments between accounting basis & funding basis under regulations	5	12,003	0	(21)	11,982	(11,982)	0
Net (Increase)/Decrease before Transfers to Earmarked Reserves		1,126	0	(21)	1,105	(18,745)	(17,640)
Adjustment		1	0	0	1	(1)	0
Transfers to/(from) Earmarked Reserves	6	(624)	417	21	(186)	186	0
(Increase)/Decrease in 2011/12		503	417	0	920	(18,560)	(17,640)
Balance as at 31 March 2012		1,144	896	0	2,041	(199,364)	(197,324)

Y CYFRIF CYNHWYSFAWR INCWM A GWARIANT

2010/11				2011/12			
Gross Expenditure	Gross Income	Net Expenditure		Note	Gross Expenditure	Gross Income	Net Expenditure
£'000	£'000	£'000			£'000	£'000	£'000
2,373	(42)	2,331	Community Fire Safety - Inspection & Certification		2,213	(50)	2,163
4,523	0	4,523	Community Fire Safety - Prevention & Education		4,237	0	4,237
23,274	(139)	23,135	Fire Fighting - Operational Responses		21,261	(201)	21,060
3,521	0	3,521	Fire Fighting - Communications & Mobilising		3,574	0	3,574
175	0	175	Fire Fighting - Securing Water Supplies		173	0	173
194	0	194	Corporate & Democratic Core Costs		186	0	186
(24,043)	0	(24,043)	Non Distributed Costs		13	0	13
10,017	(181)	9,836	Cost of Services		31,657	(251)	31,406
12,744	(2,113)	10,631	Other Operating Expenditure	7	11,912	(844)	11,068
389	(35)	354	Financing & Investment Income & Expenditure	8	363	(27)	336
0	(32,093)	(32,093)	Contributions from Constituent Authorities		0	(31,933)	(31,933)
		(11,272)	Deficit or (Surplus) on Provision of Services				10,877
		(314)	Surplus or Deficit on Revaluation of Property, Plant & Equipment Assets				9
		(17,156)	Actuarial Gains/Losses on Pension Assets/Liabilities				6,754
		(17,470)	Other Comprehensive Income & Expenditure				6,763
		(28,742)	Total Comprehensive Income & Expenditure				17,640

Y FANTOLEN

31 March 2011		Notes	31 March 2012
£'000			£'000
36,384	Property, Plant & Equipment	9	37,506
9	Intangible Assets	9	0
36,393	Long Term Assets		37,506
275	Inventories	12	313
1,157	Short Term Debtors	13	1,624
3,303	Cash & Cash Equivalents	14	1,201
4,735	Current Assets		3,138
9,126	Short Term Borrowing	10	11,031
3,765	Short Term Creditors	15	2,393
482	Provisions	16	646
13,373	Current Liabilities		14,070
196,832	Pension Liability	18	214,193
0	Provisions	16	0
10,391	Long term Borrowing	10	9,705
216	Other Long term Liabilities	30	0
207,439	Long Term Liabilities		223,898
(179,684)	Net Assets		(197,324)
1,120	Usable Reserves	17	2,040
(180,804)	Unusable Reserves	18	(199,364)
(179,684)	Total Reserves		(197,324)

DATGANIAD LLIF ARIAN

2010/11		Note	2011/12
£'000			£'000
(11,272)	Net Surplus/Deficit on the Provision of Services		10,877
8,595	Adjustments to Net (Surplus) or Deficit on the Provision of Services for Non-Cash Movements		(10,526)
(260)	Adjustments for Items Included in the net (Surplus) or Deficit on the Provision of Services that are Investing and Financing Activities		(337)
(2,937)	Net Cash Flows From Operating Activities	19	14
5,766	Investing Activities	20	4,249
(4,100)	Financing Activities	21	(2,161)
(1,271)	Net (Increase) or Decrease in Cash and Cash Equivalents		2,102
(2,032)	Cash and Cash Equivalents at the beginning of the reporting period		(3,303)
(3,303)	Cash and Cash Equivalents at the End of the Reporting Period	14	(1,201)

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

DATGANIAD O BOLISIAU CYFRIFYDDU

1. **CYFFREDINOL**

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod am flwyddyn ariannol 2011/12, a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2012. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad blynyddol o Gyfrifon dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, ac mae'r Rheoliadau hynny yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi gydag arferion cyfrifyddu priodol. Yn bennaf, mae'r arferion hyn yn cynnwys y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) a'r Cod Ymarfer Adrodd y Gwasanaeth 2011/12 (SERCOP), a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a'r cyfarwyddyd statudol a gyhoeddwyd dan Adran 12 o Ddeddf 2003.

Yr arfer cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad o Gyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, a hwnnw wedi ei addasu trwy ailwerthuso rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

Mae'r gymhareb rhwng Ymrwymadau Cyfredol ac Asedau Cyfredol yn uchel, a byddai hyn yn dangos fod gan yr Awdurdod broblem gyda hylifedd efallai o ran bod heb ddigon o adnoddau ar gael i ddiwallu ei rwymedigaethau tymor byr. Fodd bynnag, mae modd i'r Awdurdod gael gafael yn rhwydd ar fenthyciadau gan Fwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a ffynonellau eraill, ac nid oes risg sylweddol y bydd yn methu cael cyllid i gwrdd â'i rwymedigaethau.

2. **INCWM A GWARIANT**

Yn y cyfrifon refeniw, rhoddir cyfrif am yr incwm a'r gwariant, yn net o TAW, yn y flwyddyn y maent yn codi, nid pan wneir neu pan dderbynnir y taliadau arian parod. Yn arbennig:

- Rhoddir cyfrif am y ffioedd, costau a rhenti sy'n ddyledus gan gwsmeriaid fel incwm ar y dyddiad y mae'r Awdurdod yn darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau perthnasol.
- Cofnodir y cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwlch rhwng y dyddiad yn cael eu derbyn a phryd y cânt eu defnyddio, nodir hwy fel stoc ar y Fantolen.
- Nodir gwaith fel gwariant pan fydd wedi ei gwblhau, a chyn hynny caiff ei nodi ar y Fantolen fel gwaith yn mynd rhagddo.
- Rhoddir cyfrif am y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac sy'n dderbynadwy ar fuddsoddiadau ar sail y gyfradd llog sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian sy'n cael ei osod neu ei benderfynu gan y contract.
- Pan fo incwm a gwariant wedi ei gydnabod, ond nad oes arian wedi ei dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr y swm perthnasol ar y Fantolen. Pan fo amheuaeth a fydd dyledion yn cael eu setlo, ysgrifennir balans y dyledwyr a nodir cost ar y refeniw am yr incwm na fydd modd ei chasglu efallai.

3. **ARIAN A CHYFWERTH AG ARIAN**

Arian yw arian mewn llaw ac adnau gyda sefydliadau ariannol sy'n daladwy heb gost ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Cyfwerth ag arian yw buddsoddiadau sy'n aeddfedu ymhen tri mis neu lai o ddyddiad caffael, ac maent i'w troi'n symiau hysbys o arian gyda risg ansylweddol o newid gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir yr arian a'r cyfwerth ag arian yn net o orddrafftiau banc sy'n daladwy ar gais ac sy'n rhan annatod o reolaeth arian yr Awdurdod.

4. **COSTAU AR Y REFENIW AM ASEDAU ANGHYFREDOL**

Darperir dibrisiad ar gyfer cerbydau ar sail llinell syth, gyda chaffaeliadau'n cael eu dibrisio yn y flwyddyn ar ôl eu prynu. Mae adeiladau wedi eu dibrisio ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr asedau, fel y cyflenwyd gan Wilks Head and Eve, y Syrfêwyr Siartredig.

Caiff dibrisiad ei godi ar adrannau'r gwasanaeth o fewn y cyfrif incwm a gwariant. Caiff y swm hwn ei gredydu ar Falans y Gronfa Gyffredinol, felly mae'n cael effaith niwtral ar y cyfraniadau a wneir gan yr awdurdodau cyfansoddol.

Caiff asedau eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth dros y cyfnodau canlynol:-

Adeiladau	15-80 blynedd
Seilwaith	5-20 blynedd
Cerbydau, Peiriannau ac Offer	3-20 blynedd
Asedau Anniriaethol	5-15 blynedd

5. **BUDDION GWEITHWYR**

Buddion yn daladwy yn ystod cyflogaeth

Bydd cyflogau a thaliadau'n gysylltiedig â chyflogaeth yn cael eu cydnabod yn y cyfnod pryd y derbynnir y gwasanaeth gan y gweithwyr. Mae cost hawliad seibiant blynyddol a enillwyd ond na chymerwyd gan y gweithwyr ar ddiwedd y cyfnod yn cael ei chydnabod yn y datganiadau ariannol i'r graddau y mae gan y gweithwyr hawl i gario seibiant drosodd i'r cyfnod canlynol.

Buddion terfynu

Buddion terfynu yw symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad a wneir gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol, a chânt eu talu ar sail cronïadau i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.

6. **BUDDION ÔL-CYFLOGI**

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn gwahanol, sy'n diwallu anghenion grwpiau gwahanol o weithwyr. Dyma'r cynlluniau:

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (CPDT)

Mae cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn gynllun gyda buddion, nad yw'n cael ei ariannu, ac ystyr hynny yw nad oes unrhyw asedau buddsoddi wedi eu casglu i gwrdd â'r ymrwymïadau o ran pensiynau a rhaid creu arian i gwrdd â'r taliadau pensiwn eu hunain pan maent yn ddyledus. Mae cyfraniadau'r gweithiwr a'r cyflogwr yn seileidig ar gyfran o'r cyflog pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, ac mae hyn yn destun ailwerthusiad bob tair blynedd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Caiff y gronfa bensiwn ei thrin fel datganiad incwm a gwariant ar wahân yn y Datganiad o Gyfrifon, ac mae'n cael ei neilltuo er mwyn sicrhau eglurder, gweler Nodyn 18, 32 a 'Chyfrif Cronfa Pensiwn y Diffoddwyr Tân' ar dud. 50 i gael rhagor o fanylion. Trwy'r gronfa bensiwn y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldeb o ran talu pensiynau swyddogion sydd wedi ymddeol, y rhai sy'n eu goroesi ac eraill sy'n gymwys am fuddion dan y cynllun.

Caiff ymrwymiad tymor hir amcangyfrifedig yr Awdurdod Tân ac Achub i dalu'r costau eu hun eu datgelu gan Nodyn i'r cyfrifon fel sy'n ofynnol gan IAS 19.

Staff yr Ochr Gefnogol a'r Ystafell Reoli

Dyma gynllun a ariennir, gyda'r pensiwn yn cael ei dalu o'r cronfeydd buddsoddi gwaelodol a reolir gan gronfa pensiwn Cyngor Sir y Fflint (y 'gronfa') sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Actiwaiaid sy'n pennu cyfradd cyfraniad y cyflogwr. Mae rhagor o gostau'n codi mewn perthynas â rhai pensiynau a delir i weithwyr sy'n ymddeol ar sail heb ei ariannu. Gweler Nodyn 32 am ragor o fanylion.

7. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yw'r digwyddiadau hynny, boed ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi eu hawdurdodi i gael eu cyhoeddi. Gellir nodir dau fath o ddigwyddiad.

- a) y rheini sy'n darparu tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd (digwyddiadau sy'n addasu ar ôl y cyfnod adrodd), a
- b) y rheini sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd (digwyddiadau nad ydynt yn addasu ar ôl y cyfnod adrodd).

8. EITEMAU EITHRIADOL

Pan fo eitemau incwm a gwariant yn bwysig, datgelir eu natur a'u swm ar wahân, naill yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, gan ddibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol yr Awdurdod.

9. ADDASIADAU I'R CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISIÂU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU

Gall addasiadau i'r cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifyddu neu i gywiro gwall pwysig. Rhoddir cyfrif yn rhagolygol am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod pryd y bydd y newid yn effeithio arnynt ac nad ydynt yn arwain at addasiad cyn y cyfnod.

Ni chaiff newidiadau i bolisiâu eu gwneud ond pan fo hynny'n ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol neu bod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynglŷn ag effeithiau trafodion, digwyddiadau ac amodau eraill ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan gaiff newid ei wneud, caiff ei wneud am yn ôl (oni bai y nodir fel arall) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi cael ei ddilyn erioed.

10. OFFERYNNAU ARIANNOL

Y diffiniad o Offeryn Ariannol yw 'unrhyw gytundeb sy'n achosi ased ariannol un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti un arall'. Bydd ymrwymadau ariannol (benthyciadau) ac asedau ariannol (buddsoddiadau) yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg, ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Bydd y llog blynyddol a delir ac a dderbynir yn y cyfrif Incwm a Gwariant yn seiliedig ar swm cludo'r benthyciad neu'r buddsoddiad wedi ei luosogi gan gyfradd effeithiol y llog ar gyfer yr offeryn. O ran pob benthyciad a buddsoddiad sydd gan yr Awdurdod, y symiau sydd yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n aros, ynghyd ag unrhyw log cronedig am y flwyddyn.

11. BUDDSODDIADAU

Dangosir y buddsoddiadau yn y Fantolen ar eu cost i'r Awdurdod, a chânt eu heitemeiddio mewn Nodyn ar wahân.

12. **RHOI CYFRIF AM GRANTIAU'R LLYWODRAETH**

Ni ellir rhoi grantiau'r Llywodraeth yn erbyn asedau sefydlog, ond bydd grantiau'r llywodraeth (a chyfraniadau eraill) yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant pan fo'r amodau gofynnol wedi cael eu bodloni. Yna, trosglwyddir yr incwm i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf neu'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio, yn ddibynnol ar p'un ai bydd wedi ei ddefnyddio ai peidio. Yn ei hanfod, defnyddir Grantiau'r Llywodraeth a ddyfernir ar gyfer cynlluniau cyfalaf fel ffynhonnell arian ar gyfer y rhaglen gyfalaf.

13. **RHESTRAU STOC**

Mae rhestrau stoc wedi cael eu prisio gan ddefnyddio FIFO neu fformiwla'u cost ar gyfartaledd wedi eu pwysoli. Pan fo telerau taliadau gohiriedig ar gyfer prynu rhestrau stoc, ystyrir hyn yn drefniant ariannu, ac mae'r gwahaniaeth rhwng y pris a fyddai wedi cael ei dalu o dan delerau credyd "arferol" a'r swm a dalwyd mewn gwirionedd wedi cael ei gydnabod fel gwariant llog dros y cyfnod ariannu.

14. **LESOEDD**

Lesoedd Cyllid

Pan mai'r Awdurdod sy'n cynnal pob risg a gwobr bod yn berchen ar ased ar les, caiff yr ased ei chofnodi fel Eiddo, Peiriannau ac Offer a chofnodir ymrwymiad cyfatebol. Y gwerth a gydnabyddir ar gyfer y ddau yw'r isaf o werth teg yr ased neu werth presennol isafswm y taliadau les, wedi ei ddisgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sy'n ymhyg yn y les. Y gyfradd llog sy'n ymhyg yw'r hyn sy'n cynhyrchu cyfradd llog rheolaidd a chyson ar yr ymrwymiad sy'n weddill. Caiff yr ased a'r ymrwymiad eu cydnabod ar gychwyn y les, a chânt eu dadgydnabod pan gaiff yr ymrwymiad ei ryddhau, ei ganslo neu pan ddaw i ben. Caiff y rhent blynyddol ei rannu rhwng ad-dalu'r ymrwymiad a'r cost cyllido. Caiff y gost cyllido flynyddol ei chyfrifo trwy roi'r gyfradd llog sy'n ymhyg at yr ymrwymiad sy'n weddill, a chaiff ei chodi ar y Costau Ariannu yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm.

Lesoedd Gweithredu

Pan fo asedau ar gael i'w defnyddio dan drefniadau les, caiff y rhenti sy'n daladwy eu codi ar gyfrif y gwasanaeth priodol ar sail llinell syth, ni waeth beth fo'r trefniadau talu. Gan nad yw'r Awdurdod yn berchen ar yr asedau hyn, nid yw'r costau'n ymddangos yn y Fantolen. Felly hefyd, caiff yr ymrwymiad i dalu costau rhentu yn y dyfodol eu heithrio, ond atodir Nodyn ar wahân i'r Fantolen.

15. **DYRANNU COSTAU GWEINYDDOL CANOLOG**

Mae'r gwasanaethau gweinyddol canolog mawr, megis Cyllid, Rheoli Eiddo a'r Gefnogaeth Gyfreithiol a Gweinyddol yn cael eu prynu gan Awdurdodau Lleol eraill. Mae'r costau hyn, a chostau gweinyddiaeth ganolog yn yr Awdurdod Tân, wedi cael eu dyrannu i wasanaethau rheng-flaen yn unol â Datganiad CIPFA ar Gyfrifyddu Gorbenion a Chod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau, ac eithrio:

- Craidd Corfforaethol a Democrataidd – costau sy'n ymwneud â statws yr Awdurdod fel sefydliad amlswyddogaethol a democrataidd.
- Costau heb eu dosrannu – cost y buddion yn ôl disgreisiwn a roddir i weithwyr sy'n ymdeol a cholledion amhariadau i'w codi ar Asedion a Ddelir ar Werth.

Diffinir y ddau gategori costau hyn yn SeRCOP, a rhoddir cyfrif amdanynt fel penawdau ar wahân yn y Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant, fel rhan o Gost Gwasanaethau.

16. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Cydnabod

Caiff Eiddo, Peiriannau ac Offer eu cyfalafu pan:

- mae'n cael ei gadw i'w ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau neu i ddibenion gweinyddol;
- mae'n debygol y bydd buddion economaidd yn y dyfodol yn llifo i'r Awdurdod, neu y bydd gwasanaeth yn debygol o gael ei ddarparu iddo;
- mae disgwyl iddo gael ei ddefnyddio am fwy nag un flwyddyn ariannol;
- gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy;
- mae'r eitemau'n rhan o gost gychwynnol cyfarparu neu sefydlu adeilad newydd neu wrth adnewyddu gorsaf neu swyddfeydd, ni waeth beth fo'u cost unigol neu ar y cyd. Pan fo ased mawr, er enghraifft adeilad, yn cynnwys nifer o gydrannau gyda gwahaniaeth mawr yn oes yr ased, e.e. peiriannau ac offer, yna caiff y cydrannau hyn eu trin fel asedau ar wahân, a'u dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol eu hunain.

Asedau Anarbenigol yr Ochr Weithredol ac Anweithredol

Mae tir ac adeiladau anarbenigol yr ochr weithredol ac anweithredol yn cael eu cario drosodd ar Werth Teg, sy'n cael ei bennu fel arfer yn ôl tystiolaeth y farchnad, sef yn gyffredinol y gwerth ar y farchnad agored, ond mae'r Cod yn caniatáu i'r rhain gael eu cario drosodd ar y gwerth defnydd presennol.

Asedau o Natur Arbenigol

O ran asedau o natur arbenigol lle nad oes unrhyw dystiolaeth ar y farchnad, mae amcangyfrif o werth teg wedi cael ei seilio ar Gost Amnewid Dibrisiedig (*Depreciated Replacement Cost (DRC)*), gyda'r prisiad yn Ased Cyfwerth Modern (*Modern Equivalent Asset (MEA)*) gan ddefnyddio'r dull "adeiladu ar unwaith". Mae gorsafodd tân yn cael eu cynnwys yn y categori hwn.

Tir ac Adeiladau

Rhoddwyd cyfrif am dir ac adeiladau ar wahân, a thybir bod oes ddiidiwedd gan dir.

Asedau sy'n cael eu Hadeiladu

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu wedi cael eu prasio ar gost hanesyddol.

Asedau dros ben

Mae asedau dros ben wedi cael eu prasio ar Werth Teg, sef yr hyn a ystyrir yn werth ar y farchnad agored. Pan nad yw'r ased yn cael ei ddal er mwyn creu llif arian, y gwerth a ddefnyddir yw gwerth presennol potensial gwasanaeth yr ased sy'n weddill, a thybir bod hynny yn gyfwerth o leiaf â chost amnewid y potensial gwasanaeth hwnnw a'i ddefnyddio fel mesur o werth teg.

Os yw'r ased dros ben o natur arbenigol, yna bydd y gost amnewid dibrisiedig wedi cael ei ddefnyddio fel amcangyfrif o werth teg. Mae asedau dros ben wedi eu dibrisio, gyda'r dibrisiad wedi ei ddangos yn erbyn "costau na ddosrannwyd" yn hytrach na gwasanaeth penodol.

Cyfrifyddu Cydrannol

Cydran o eiddo, peiriant ac offer yw eitem sydd â chost yn sylweddol mewn perthynas â chyfanswm cost yr ased. Dylid dibrisio cydrannau'n unigol dros eu hoes ddefnyddiol. Fodd bynnag, wrth droi i'r Cod, nid yw cyfrifyddu cydrannol ond wedi cael ei ddefnyddio pan fo cydran yn cael ei newid neu ei wella'n rhannol, a'r hen gydran wedi ei ddadgydnabod.

Ailbrisio

Pan fo ased yn cael ei ailbrisio, gwneir Nodyn rhwng y Gronfa Ailbrisio a'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf, sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiad yn seiliedig ar gost hanesyddol a swm yr ailbrisiad.

Colledion Ailbrisio

Bydd colled ailbrisio o ganlyniad i dreulio budd economaidd, os bydd gwarged ailbrisio ar yr ased hwnnw, yn cael ei godi i ddechrau yn erbyn y gwarged i faint y gwarged hwnnw, gyda balans y golled yn cael ei godi ar y Cyfrif Cynhwysfawr Incwm a Gwariant.

Cafodd y prisiad llawn diwethaf o'r eiddo ei gynnal ar 1 Ebrill 2009 gan Wilks Head and Eve, cwmni priswyr o Lundain. Cafodd nifer o eiddo eu hailbrisio ar 1 Ebrill 2011 oherwydd i waith gael ei wneud ar yr eiddo hyn. Ers 2010-11, mae'r Awdurdod wedi cyflwyno polisi o brisio eu heiddo ar raglen dreigl yn hytrach na gwneud prisiad llawn bob 5 mlynedd. Mae'r lle swyddfeydd wedi eu prisiau ar werth eu defnydd presennol, ac mae'r gorsafoedd tân ar gost amnewid dibrisiedig. Er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer, fe wnaeth y prisiwr amcangyfrif yr oes sydd ar ôl i holl adeiladau'r Awdurdod er mwyn gallu cyfrifo cost dibrisio. Mae asedau eraill yn cael eu cydnabod ar gost hanesyddol, sef y gost gyfredol ar asedau oes fer ac sy'n dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

Amhariad

Mae'r asedau'n cael eu cario heb fod dim uwch na'u swm adferadwy, a mesurir yr amhariad trwy gymharu'r gwerth sy'n cael ei gario gyda'r uchaf o'r gwerth teg, llai y costau i werthu (cyfwerth â'r pris gwerthu net) a'r gwerth o'u defnyddio. Bydd yr amhariad yn cael eu fesur bob blwyddyn, ac mae'r dangosyddion i wrth-droi'r amhariad yr un fath ar gyfer asedau diriaethol ac asedau anniriaethol. Bydd yr holl golledion amhariad ar asedau wedi eu hailbrisio yn cael eu cydnabod yn y Gronfa Ailbrisio Ailbrisio hyd at y swm yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer pob ased unigol.

17. DERBYNIADAU CYFALAF

Bydd derbyniadau asedau y cafwyd gwared arnynt yn cael eu dal fel Derbyniadau Cyfalaf Defnyddadwy yn y gronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddadwy hyd oni fyddant yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

18. CRONFEYDD DROS BEN A DARPARIAETHAU

Y swm gwirioneddol a godwyd		
Cyfraniadau cyflogwyr	910	894
– Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	410	335
– Diffoddwyr tân y telir pensiwn iddynt	2,000	1,963
– Cronfa pensiwn diffoddwyr tân	20	10
Addasiad	17,156	(6,754)
Addasiadau Actiwaraidd i'r Fantolen		
SYMUDIAD AR Y GRONFA BENSIWN WRTH GEFN	28,635	(17,361)
BALANS TERFYNOL	(196,832)	(214,193)

IAS 19 Addasiad Pensiwn i gost net gwasanaeth – Cyfrif Incwm a Gwariant

Addasiad i Gost Net Gwasanaeth	2010/11 £'000	2011/12 £'000
Costau Gwasanaeth Cyfredol	5,879	5,660
Costau Gwasanaeth Blaenorol	(24,056)	0
Cyfraniadau Cyflogwyr	(3,320)	(3,192)
Grant Atodol	(1,881)	(2,936)
Addasiad Actiwaraidd	(59)	14
Addasiad i gost Net Gwasanaeth	(23,437)	(454)

Hanes y Cynllun

Gellir dadansoddi'r enillion a'r colledion actiwaraid a nodwyd fel symudiadau ar y Gronfa Bensiynau yn 2011-12 yn y categorïau canlynol.

CATEGORI	2011/12		2010/11		2009/10		2008/09		2007/08	
	£'000	Ased/ Ymrwymiad %	£'000	Ased/ Ymrwymiad %	£'000	Ased/ Ymrwymiad %	£'000	Ased/ Ymrwymiad %	£'000	Ased/ Ymrwymiad %
Y gwahaniaeth rhwng yr adenillion disgwylidig a gwironeddol ar Asedau	(594)	4.4	(35)	0.3	0	0	0	0	(627)	7.4
Y gwahaniaeth rhwng rhagdybiaethau actiwaraid ynglŷn ag ymrwymadau a'r profiad gwirioneddol	3,460	1.51	16,309	7.8	25,330	10.73	30	0.6	5,589	3.7
Newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig ac ariannol a ddefnyddiwyd i amcangyfrif yr ymrwymadau	(9,620)	4.22	902	0.43	(72,227)	30.59	17,072	10.59	26,012	17.26
Cyfansymiau	(6,754)		17,176		(46,897)		17,102		30,974	

Dyma asedau ac ymrwymadau'r Awdurdod rhwng 31 Mawrth 2008 a 31 Mawrth 2012:

	31 Mawrth				
	2012 £'000	2011 £'000	2010 £'000	2009 £'000	2008 £'000
Cyfran amcangyfrifedig yr Ymrwymiad yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	206,630	189,890	216,810	135,040	144,340
Cyfran amcangyfrifedig yr ymrwymadau yng Nghronfa Bensiwn Clwyd	21,037	19,447	19,250	12,515	14,797
Cyfanswm cyfran amcangyfrifedig yr ymrwymadau	227,667	209,337	236,060	147,555	159,137
Cyfran yr asedau yng Nghronfa Bensiwn Clwyd	13,474	12,505	10,593	7,255	8,516
Diffyg Net Pensiynau	214,193	196,832	225,467	140,300	150,621

Mae'r ymrwymadau wedi cael eu priso ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sy'n asesu ymrwymadau'r dyfodol i'r gronfa wedi eu gostwng i'w gwerth presennol. Mae Cynllun y Diffoddwyr Tân wedi ei brisio gan Adran Actiwarai'r Llywodraeth, ac mae ymrwymadau Cronfa Bensiwn Clwyd wedi eu priso gan Mercer, cwmni annibynnol o actiwaraid. Y prif ragdybidaethau a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo yw:

	<i>Cynllun y Diff. Tân</i>		<i>Cronfa Bensiwn Clwyd</i>	
	<i>2011</i> %	<i>2012</i> %	<i>2011</i> %	<i>2012</i> %
Cyfradd Chwyddiant	3.0	2.6	3.0	2.6
Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau	5.3	4.7	4.5	4.5
Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau	2.6	2.5	3.0	3.0
Cyfradd Gostwng Ymrwymadau'r Cynllun	5.7	4.9	5.5	5.5
Disgwyliad oes Amcangyfrif 31 Mawrth 2012				
Disgwyliad oes yn 65	Dynion	Merched	Dynion	Merched
Pensiynwyr Cyfredol	23.4	25.3	21.8	21.8
Pensiynwyr yn y Dyfodol	26.5	28.3	23.2	23.2

Mae Cynllun y Diffoddwyr Tân yn gynllun sydd heb ei ariannu, ac felly nid yw'n dal asedau i greu incwm i gwrdd ag ymrwymadau'r cynllun. Mae'r cyllid ar gyfer taliadau'r cynllun yn dod gan gyfraniadau'r cyflogwyr a'r gweithwyr yn y flwyddyn, a grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn gynllun sy'n cael ei ariannu, ac felly mae wedi adeiladu asedau dros y blynyddoedd i greu incwm i gwrdd ag ymrwymadau yn y dyfodol. Mae asedau yng Nghronfa Bensiwn Clwyd wedi eu prasio ar werth teg, yn bennaf y gwerth cynnig ar gyfer buddsoddiadau, ac maent yn cynnwys:

	<i>31 Mawrth</i> %	<i>31 Mawrth</i> £'000	<i>Adenillion Disgwyliad Ar Ased</i> %
2012			
Buddsoddiadau Ecwiti	41.0	5,525	7.0
Bondiau	16.0	2,156	5.1
Asedau Eraill	43.0	5,793	7.0
Cyfanswm		13,474	
2011			
Buddsoddiadau Ecwiti	58.5	7,315	7.5
Bondiau	11.8	1,476	5.1
Asedau Eraill	29.7	3,714	7.5
Cyfanswm		12,505	

Gellir dadansoddi'r symudiad ar y diffyg pensiwn net am y flwyddyn fel a ganlyn, yn seiliedig ar werth presennol ymrwymadau'r cynllun:

Ymrwymadau	2010/11 £'000 Clwyd	2010/11 £'000 Diffoddwyr Tân	2011/12 £'000 Clwyd	2011/12 £'000 Diffoddwyr Tân
Balans ar 1 Ebrill	(19,250)	(216,810)	(19,447)	(189,890)
Cost Gyfredol y Gwasanaeth	(739)	(5,140)	(660)	(5,000)
Gwerth Trosglwyddiadau i mewn	0	0	0	(350)
Cost Gwasanaeth Blaenorol	1,206	22,850	0	0
Llog	(1,127)	(11,580)	(1,084)	(10,810)
Cwtogiadau	0	0	0	0
Colled/Enillion Actiwaraidd	751	16,460	2	(6,160)
Cyfraniadau'r Cyflogwr	0	5,450	0	5,570
Asesiad Actiwaraidd o Ymrwymadau	(288)	(1,120)	152	10
Ymrwymadau Pensiwn Net ar ddiwedd y flwyddyn	(19,447)	(189,890)	(21,037)	(206,630)

Cysoniad o werth teg Asedau'r cynllun, - dim ond mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Clwyd:

Asedau	2010/11 £'000	2011/12 £'000
Balans 1 Ebrill	10,593	12,505
Adenillion ar Asedau Pensiwn	749	823
Enillion/Colledion Actiwaraidd ar Asedau	(35)	(596)
Cyfraniadau	1,198	742
Asedau Pensiwn Net ar ddiwedd y flwyddyn	12,505	13,474

33. Natur a Maint y Risgiau sy'n deillio o Offerynnau Ariannol

Mae amcanion yr Awdurdod yn ei wneud yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

- risg credyd – y posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu talu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod
- risg hylifedd – y posibilrwydd y gallai'r Awdurdod fod heb yr arian i gwrdd â'i ymrwymadau i wneud taliadau
- risg y farchnad – y posibilrwydd y gallai colled ariannol ddod i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau megis cyfraddau llog a symudiadau ar y farchnad stoc.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, sy'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fesurau yn eu lle i reoli'r risgiau uchod. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, cafodd yr Aelodau adroddiad sy'n amlinellu'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys i'w dilyn yn y flwyddyn, a gosod y Dangosyddion Darbodus am y flwyddyn. Hanner ffordd drwy'r flwyddyn, ceir adroddiad yn nodi cynnydd o'i gymharu â'r strategaeth, ac os oes angen, adolygiad o'r Dangosyddion Darbodus. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r adroddiad terfynol yn nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Mae'r ffordd y mae'r Awdurdod yn rheoli risgiau sy'n deillio o'r offerynnau ariannol yn cael eu nodi yn adroddiadau'r trysorlys a gyflwynir i'r Aelodau, a gellir eu cael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sef www.gwastan-gogcymru.org.uk.

Mae'r risg credyd uchaf yn ymwneud â buddsoddiadau, a rheolir y rhain trwy Strategaeth Rheoli'r Trysorlys fel y nodir uchod. Yn y farchnad gyfredol, nid yw'r Awdurdod ond yn buddsoddi ar gyfer y tymor byr, hyd at uchafswm o 3 mis, a hynny gyda sefydliadau sydd ar restr partïon i gontract yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf bob dydd am unrhyw newidiadau i statws credyd y sefydliadau ar restr y partïon i gontract, ac os bydd unrhyw sefydliadau'n cael eu hisraddio ac yn methu cwrdd â'r meini prawf sydd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, byddant yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr. Os bydd sefydliad yn methu ad-dalu buddsoddiad, yna gallai'r golled ariannol i'r Awdurdod fod yn uwch na £1 miliwn. Fodd bynnag, oherwydd rheoli'r portffolio'n ofalus, nid oes yr un sefydliad wedi methu ad-dalu arian sy'n ddyledus.

Mae'r Awdurdod yn gallu cael gafael yn rhwydd ar fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, nid oes unrhyw risg sylweddol na fyddai'n gallu codi'r arian i gwrdd â'i ymrwymiadau dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd yr Awdurdod yn rhwym o ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg o gyfraddau llog anffafriol.

Gwnaed asesiad o effaith ariannol 1% o gynnydd mewn cyfraddau llog; byddai'r llog ar fenthyciad cyfradd amrywiol wedi codi £126k; a byddai'r llog oddi ar fuddsoddiadau wedi cynydd £22k.

34. Ymrwymiadau Amodol

Pensiynau Diffoddwyr Tân yn ôl y Galw

Mae Diffoddwyr Tân yn ôl y Galw wedi gallu ymuno â'r Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Newydd ers 1 Ebrill 2006. Fodd bynnag, o ganlyniad i achos llys yn ymwneud â Gweithwyr Rhan Amser (Atal triniaeth llai ffafriol), a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2000, mae hawl gan Ddiffoddwyr Tân yn ôl y Galw, dan rai amgylchiadau, brynu i mewn i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân o ddyddiad cynharach. Pan ddewisir yr opsiwn hwn, bydd ymrwymiad sylweddol i'r Awdurdod dalu cost pensiynau o'r fath. Nid yw cyfrifiad manwl yr ymrwymiad wedi ei gytuno'n llwyr eto, ac efallai y bydd elfen yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, nid oes modd mesur costau ac amseru ymrwymiad o'r fath, os oes rhai.

Cyfrifo am y newid o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer Uwchraddio Budd-dal Pensiwn

Mae'r penderfyniad i uwchraddio pensiynau gwasanaeth cyhoeddus gan ddefnyddio Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu wedi cael ei gydnabod yn y cyfrifon hyn. Mae'r penderfyniad hwn wedi bod yn destun adolygiad barnwrol, ac roedd ei ganlyniad o blaid y Llywodraeth gydag uwchraddio budd-dal Pensiwn yn parhau'n gysylltiedig â CPI. Fodd bynnag, mae risg y bydd apêl yn erbyn y penderfyniad ac y bydd uwchraddio'n dychwelyd yn ôl i RPI. Nid yw'r goblygiadau ariannol o ganlyniad i apêl yn erbyn y penderfyniad wedi cael eu hasesu.

CYFRIF CRONFA BENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

<i>Cyfrif y Gronfa</i>	<i>2010/11 £000</i>	<i>2011/12 £000</i>
INCWM		
Cyfraniadau Derbynadwy:		
Cyfraniadau arferol y Cyflogwr	(2,006)	(1,908)
Cost Afiechyd y Cyflogwr	(38)	(56)
Aelodau	(1,115)	(1,064)
Trosglwyddiadau i mewn	(260)	(354)
CYFANSWM	(3,419)	(3,382)
GWARIANT		
Buddion Taladwy:		
Taliadau Pensiwn	4,640	4,934
Cymudo buddion Pensiynau a Lwmp-swm	659	1,384
Taliadau i Ymadawyr, ac ar eu rhan:		
Trosglwyddiadau allan	1	0
CYFANSWM	5,300	6,318
SWM NET (TALIADWY)/DERBYNADWY CYN Y GRANT YCHWANEGOL	1,881	2,936
Grand Ychwanegol gan Lywodraeth Cymru	(1,881)	(2,936)
SWM NET (TALADWY)/DERBYNADWY AM Y FLWYDDYN	0	0

<i>Datganiad Asedau Net</i>	<i>2010/11 £000</i>	<i>2011/12 £000</i>
Asedau ac Ymrwymadau Cyfredol Net:		
Grant Ychwanegol yn daladwy i/(oddi wrth) Lywodraeth Cymru	1,336	(1,064)
Swm yn ddyledus o'r / i'r Gronfa Gyffredinol	(1,336)	1,064
Asedau Net ar ddiwedd y flwyddyn	0	0

Nodiadau i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 2007, ac mae'n ymorol am Gronfeydd Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 a 2007, a'r Awdurdod sy'n ei gweinyddu. Telir cyfraniadau'r cyflogwr a gweithwyr i'r Gronfa, a gwneir taliadau i bensiwnwyr ohoni. Mae lefelau cyfraniadau'r gweithwyr a'r cyflogwr yn seiliedig ar ganrannau o'r cyflog pensiwnadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn agored i ailwerthusiad bob tair blynedd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cynllun yn un nad yw'n cael ei ariannu, nid oes ganddo asedau buddsoddi, a bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y buddion sy'n daladwy a'r cyfraniadau derbynadwy, yn cael ei ateb gan Grant Ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Mae trosglwyddiadau i'r cynllun yn drosglwyddiad o fuddion pensiwn o gynllun pensiwn arall ar gyfer gweithwyr newydd neu bresennol, ac mae trosglwyddiadau allan yn drosglwyddiad buddion i weithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod ac wedi ymuno â chynllun pensiwn arall.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am dalu cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa, a dyma'r costau a gynhwysir yn y cyfrifon ar gyfer yr Awdurdod.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwneir asesiad o swm y Grant Ychwanegol sydd ei hangen gan Lywodraeth Cymru, a chaiff 80% o'r amcangyfrif ei dalu ym mis Gorffennaf. Roedd yr amcangyfrif ar gyfer 2011-12 yn cynnwys asesiad o nifer y diffoddwyr tân sydd i fod i ymddeol o fewn y flwyddyn yn seiliedig ar oedran a blynyddoedd eu gwasanaeth, ac yn seiliedig ar hyn, gellir amcangyfrif y taliad cymudo a ddaw'n

ddyledus, a'r taliadau pensiwn ychwanegol. Yn 2011-12, roedd nifer y diffoddwyr tân a oedd yn ymddeol yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol, a hynny yn bennaf oherwydd bod yr Adolygiad o Ofal Swyddogion a wnaed gan y Gwasanaeth yn golygu bod y Grant Ychwanegol yn is na'r hyn yr oedd ei angen i ymorol am y diffyg yn y gronfa. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd ar yr Awdurdod £1.064 miliwn i Lywodraeth Cymru oherwydd tandalu'r Grant Ychwanegol.

Mae'r polisïau cyfrifyddu ar gyfer Cyfrif y Gronfa Bensiwn yn gyson â'r polisïau cyfrifyddu sydd ar dudalennau 14 – 20.

Cyfraddau Cyfraniadau

Dan Reoliadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, cyfraddau'r cyfraniadau ar gyfer cynllun 2007 oedd 19.5% o gyflog pensiynadwy (11% cyflogwyr a 8.5% gweithwyr), ac ar gyfer cynllun 1992, roedd yn 32.3% o gyflog pensiynadwy (21.3% cyflogwr a 11% gweithwyr).

Nid yw Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cymryd ystyriaeth o'r ymrwymadau ar gyfer pensiynau a buddion eraill wedi diwedd y cyfnod, gan mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw hyn. Mae manylion am yr ymrwymadau pensiwn tymor hir i'w cael yn Nodyn 30 o'r datganiadau ariannol craidd (2012 - £206.63 miliwn, 2011 - £189.89 miliwn).

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cwmpas Cyfrifoldeb

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif cywir amdano, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Hefyd, mae dyletswydd ar yr Awdurdod dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y mae ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni, gan dalu sylw i gyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am roi trefniadau cywir yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei faterion i'w gwneud yn haws i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE, sef *Delivering Good Governance in Local Government*.

Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r cod, a hefyd wedi ateb gofynion y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2005 fel y'u diwygiwyd mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

Diben y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Awdurdod, a'r gweithgareddau ar gyfer bod yn atebol i'r gymuned, yn trafod â hi, ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro'r modd y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac yn ystyried p'un a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw, a'i nod yw rheoli risg i fod ar lefel resymol yn hytrach na chael gwared ar bob risg o fethu â chyflawni polisiâu, nodau ac amcanion. Felly, ni all ond darparu sicrwydd rhesymol, heb fod yn llwyr, o effeithiolrwydd. Mae system reolaeth fewnol yr Awdurdod yn seiliedig ar broses barhaus sydd â'r nod o:

- adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiâu, nodau ac amcanion yr Awdurdod;
- gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny;
- gwerthuso'r effaith petaent yn cael eu gwireddu, a'u;
- rheoli'n economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Rhodddwyd y Fframwaith Llywodraethu yn ei le ar gyfer yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiad o gyfrifon.

Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn disgrifio elfennau allweddol y systemau a'r prosesau sy'n ffurfio trefniadau llywodraethu'r Awdurdod, a hynny yn unol â'r chwe egwyddor llywodraethu corfforaethol sydd yn ein cod, ac sy'n cynnwys:-

- Canolbwyntio ar ddiben yr awdurdod ac ar ddeilliannau i'r gymuned, a chreu a gwireddu gweledigaeth ar gyfer y fro
- Bydd yr aelodau a'r swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin sydd â swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir
- Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod, ac amlygu gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal ymddygiad o safon uchel
- Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n agored i graffu effeithiol a rheoli risg
- Meithrin gallu'r aelodau a'r swyddogion i weithio'n effeithiol
- Trafod gyda phobl leol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus sy'n gadarn

Adolygu Effeithiolrwydd

Mae'n gyfrifoldeb ar yr Awdurdod i gynnal adolygiad, o leiaf bob blwyddyn, o effeithiolrwydd ei Fframwaith Llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Yn sail i'r adolygiad o effeithiolrwydd mae gwaith y Grŵp Gweithredol, a'i swyddogion o fewn yr Awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol, a hefyd sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol, ac adolygiadau a wneir.

Fel darparwr gwasanaethau Archwilio Mewnol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae is-adran Archwilio Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu barn i'r Awdurdod, trwy ei Bwyllgor Archwilio, am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau'r sefydliad ar gyfer llywodraethu, rheoli a meistroli risg.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol am eu cynnydd o'i gymharu â'r cynllun archwilio blynyddol, sy'n darparu manylion am y lefelau sicrwydd y gellir eu rhoi yn erbyn y gwahanol systemau a phrosesau sydd yn eu lle.

Wrth gynnal ac adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Awdurdod, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:-

1. Mae'r Awdurdod yn gweithredu strwythur pwyllgorau sy'n ymwneud â'r meysydd allweddol sy'n gyson â'i amcanion strategol, a chyda Chylchoedd Gorchwyl y cytunwyd arnynt:-

Yr Awdurdod Tân ac Achub

Mae 28 o aelodau etholedig ar yr Awdurdod Tân ac Achub, ac maent yn dod o'r 6 Awdurdod Unedol sy'n ymorol am ardal y Gwasanaeth Tân ac Achub, a hynny yn unol â Gorchymyn Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995.

Mae rôl yr Awdurdod wedi ei ddiffinio yn ei Reolau Sefydlog:

- Cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân ac Achub yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn arbennig [Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004](#) a'r [Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio \(Diogelwch Tân\) 2005](#) – a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006, a [Chynllun Cyfuno 1995](#).
- Cytuno ar y cynlluniau gwasanaeth blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf, a chyfraniad y cynghorau cyfansoddol.
- Monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf, ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau mawr, gan gynnwys penderfynu ar unrhyw gyfraniadau atodol.

Mae'r Awdurdod llawn yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, a hynny ym mis Mawrth, Mehefin, Hydref a Rhagfyr, ac mae'n ystyried pynciau megis cynlluniau gwasanaeth, materion busnes arferol, cyllidebau a gwariant, ac yn gwneud neu'n cymeradwyo penderfyniadau polisi fel y bo'n briodol. Gellir galw cyfarfodydd arbennig o'r Awdurdod unrhyw bryd os oes angen trafod unrhyw fusnes brys. Caiff y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd eu hethol yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mehefin.

Mae gweithgarwch cywir yr Awdurdod yn cael ei gefnogi ymhellach gan ei Glerc a'i Drysorydd. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion o drafodion yr Awdurdod ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Y Panel Gweithredol

Mae gan y Panel Gweithredol rôl amrywiol yn ymdrin â phynciau megis penodi uwch swyddogion, edrych yn fanwl ar gynlluniau gwella ac ariannol, ymdrin â rhai materion archwilio a materion polisi a chyfansoddiadol fel y cyfyd yr angen.

Y Panel sydd fel arfer yn ymdrin ag ymatebion i bapurau ymgynghorol a datblygiadau polisi eraill, ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub ynglŷn â'i bolisiâu allweddol, gan gynnwys y Cynllun Lleihau Risg. Fel arfer, y Panel sy'n ymdrin ag uwch benodiadau, a hynny trwy sefydlu is-bwyllgor arbennig i'r diben.

Sefydlwyd Cylch Gwaith y Panel yn 2001, ac mae'n cael ei adolygu fel y bo'r angen. Mae'n cynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a dau aelod o bob awdurdod cyfansoddol (cyfanswm o bedwar aelod ar ddeg). Y Cadeirydd sy'n ei gadeirio, neu'r Is-gadeirydd yn ei absenoldeb. Mae'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, rhwng cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, er bod modd cynnal cyfarfodydd ychwanegol yn ôl y llwyth gwaith.

Y Pwyllgor Archwilio

Yn dilyn adolygiad cyfansoddiadol, cytunwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2008 i benodi pwyllgor archwilio, gan ddod i rym ym mlwyddyn ddinesig 2009/10.

Mae gan y Pwyllgor bedair prif rôl, sef archwilio a chraffu mewn perthynas â llywodraethu, archwilio a chraffu mewn perthynas ag arian ac adnoddau, archwilio a chraffu mewn perthynas â rheoli risg a sicrwydd, ac archwilio a chraffu mewn perthynas â pherfformiad.

Mae aelodau'r Pwyllgor yn cynnwys rhai nad ydynt yn aelodau o'r Panel Gweithredol, ac mae'n cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Penodir y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o awdurdodau cyfansoddol gwahanol er mwyn cynrychioli cymunedau Gogledd Cymru.

Y Pwyllgor Safonau

Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000, a gosodwyd ei Gylch Gorchwyl yn 2003. Mae ei ddyletswyddau'n cynnwys ystyried cwynion yn erbyn aelodau'r Awdurdod a gyfeirir ato gan yr Ombwdsmon, a chaniatáu goddefebau. Mae hefyd yn cynghori'r Awdurdod am faterion sy'n ymwneud â safonau.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys chwe aelod, gyda phedwar ohonynt yn annibynnol. Ni all cynrychiolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub ar y Pwyllgor hwn fod yn ddeiliaid swyddi gyda'r Awdurdod. Daw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o blith yr aelodau annibynnol.

Rhaid i'r pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn, ond gall gyfarfod yn amlach os oes angen.

2. O fewn rheolaeth y sefydliad o ddydd i ddydd mae nifer o strwythurau allweddol yn eu lle er mwyn cynnal ac adolygu effeithiolrwydd systemau:

Y Grŵp Gweithredol (Swyddogion)

Mae'r grŵp strategol hwn yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r tri Phrif Swyddog Tân Cynorthwyol, ac maent yn cyfarfod bob chwe wythnos i adolygu eitemau sefydlog sy'n cynnwys perfformiad, risg a rheolaeth ariannol, a datblygu polisiau a gweithdrefnau mewnol.

Rheolaeth Ariannol

Mae trefniadau cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn ddiogel, bod cyllidebau cymeradwyedig yn realistig ac yn fforddiadwy, a'u bod yn cael eu cefnogi gan systemau monitro gwariant er mwyn darparu gwybodaeth i bob lefel o'r sefydliad ar gyfer gwneud penderfyniadau. Dyma'r trefniadau:

- Bob blwyddyn, bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn adolygu cynllun ariannol tymor canolig tair blynedd ar gyfer refeniw a chyfalaf, ac mae wedi cael ei lunio a'i gyfarwyddo gan swyddogion mewn ymgynghoriad â phenaethiaid adrannau, ac mae ganddo gysylltiad â'r amcanion strategol. Mae'n galluogi'r Gwasanaeth i gael ffyrdd o drin cynllunio refeniw a chyfalaf yn y tymor byr, canolig a hir.
- bod chwarter, bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn derbyn adroddiadau monitro'r gyllideb, a bydd y Grŵp Gweithredol yn adolygu'r gyllideb yn fanwl bob chwe wythnos;
- Hefyd, bydd grŵp monitro'r gyllideb, sy'n cael ei arwain gan swyddogion, yn cyfarfod yn rheolaidd gyda phenaethiaid pob adran i drafod eu cynnydd hyd yn hyn o'i gymharu â'u cynlluniau adrannol a'u cyllidebau datganoledig, a hynny er mwyn sicrhau bod unrhyw achos o wyro oddi wrth y targedau y cytunwyd arnynt yn dod i'r amlwg mor fuan â phosib, a bod modd cymryd camau.
- Mae ffin glir o ran cyfrifoldebau rhwng swyddogaeth cyfrifyddiaeth y rheolwyr, a wneir ym mhencadlys y Gwasanaeth Tân, a'r swyddogaeth cyfrifyddiaeth ariannol, a wneir trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Rheoli Perfformiad

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddatblygu ei fframwaith rheoli perfformiad yn barhaus, ac mae wedi gweithredu rhannau pwysig o fframwaith. Mae'n sylweddoli bod hwn yn faes sy'n datblygu drwy'r amser, ac mae'n hyderus ei fod yn gallu gwneud cynnydd yn hyn o beth. Er mwyn hynny, mae'r trefniadau canlynol yn eu lle:

- Gosodir amcanion strategol y Gwasanaeth gan yr Awdurdod Tân ac Achub llawn, a'u cyhoeddi yn y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella ar ôl deuddeg wythnos o gyfnod ymgynghori. Bydd adroddiadau ar y cynnydd wrth gyflawni'r amcanion strategol hyn yn cael eu hystyried fel mater o drefn yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a chan y Grŵp Gweithredol.

Atodiad 1

- Trwy drafodaethau ynglŷn â chynllunio rhwng penaethiaid adrannau/swyddogaethau a'r aelod perthnasol o'r Grŵp Gweithredol, bydd yr amcanion lefel uchel hyn yn cael eu troi'n gynlluniau a strategaethau adrannol sy'n diffinio'n fwy manwl sut y byddant yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni disgwylidig a chyda'r cyllidebau a ddyrennir. Cyfrifoldeb y Dirprwy Brif Swyddog Tân yw rhoi cymeradwyaeth derfynol i'r cynlluniau hyn a monitro'n rheolaidd y modd y cânt eu cyflawni, ac ef/hi sydd â chyfrifoldeb fel uwch reolwr am Gyllid a Chynllunio Perfformiad. Mae cyfarfodydd rheolaidd gyda'r grŵp Monitro Perfformiad a'r Gyllideb yn galluogi edrych yn fwy manwl ar y cynnydd mewn perthynas â chyflawni'r camau arfaethedig.
- Mae'r trefniadau cynllunio busnes wedi cael eu diwygio yn 2011/12, a gosodwyd Amcanion Gwella sy'n cynnwys disgrifiadau manwl o'r camau y mae'n eu cynllunio, y canlyniadau a ddisgwylir, a'r mesurau a ddefnyddir i benderfynu a lwyddwyd. Cyflwynwyd templedi newydd ar gyfer Cynllunio Busnes a phrosesau adolygu er mwyn atgyfnerthu atebolrwydd, a sicrhau bod camau'n cael eu cyflawni.
- Gydol y flwyddyn, bydd y Gwasanaeth yn casglu ac yn monitro cyfres o ddangosyddion perfformiad. Bydd adroddiadau am weithgarwch a pherfformiad o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol yn cael eu hystyried fel mater o drefn gan y Grŵp Gweithredol (bob chwe wythnos) a'r Panel Gweithredol (bob chwarter) er mwyn monitro cynnydd; mae rhoi ystyriaeth i'r adroddiadau hyn yn gallu arwain at ymchwil pellach i faterion penodol neu cymerir camau i gywiro os yw'r gweithgarwch neu'r lefelau perfformiad oddi ar y targed neu os na ellir eu hegluro (e.e. oherwydd y tywydd). Mae pob un o adroddiadau'r Awdurdod Tân ac Achub ar gael ar wefan y Gwasanaeth.
- Yn dilyn canfyddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol (Ionawr 2012 paragraff 13), mae'r Awdurdod yn cydnabod ei bod yn bosib fod gormod o ddibyniaeth wedi bod yn y gorffennol ar ddangosyddion strategol cenedlaethol yn hytrach nag ar gyfres lawn o fesurau cytbwys er mwyn mesur sut y cyflawnwyd Amcanion Gwella, ac mae'n ceisio mynd i'r afael â hyn yn 2012/13 er mwyn darparu gwerthusiad cytbwys, ac adrodd am berfformiad yn ei drefniadau yn y dyfodol er mwyn dangos ei berfformiad i ddinasyddion lleol.
- Fel mater o drefn, mae data sy'n porthi Dangosyddion Strategol Cenedlaethol sy'n seiliedig ar ganlyniadau, a Dangosyddion Craidd eraill a osodir gan Lywodraeth Cymru (LIC), yn cael eu casglu, eu dadansoddi, eu cyflwyno i LIC a'i hadrodd i'r cyhoedd gydol y flwyddyn. Hefyd, mae LIC yn cyhoeddi llawer o'r wybodaeth hon ar ei gwefannau ei hun.
- Caiff data am Ddangosyddion Strategol eu harchwilio bob blwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. At hynny, mae rheolaeth perfformiad effeithiol yn cael ei chefnogi gan fesurau a dangosyddion lleol sydd â thargedau cysylltiedig, lle bo hynny'n berthnasol.
- Caiff data am ddigwyddiadau eu casglu'n fewnol a sicheir eu hansawdd cyn eu cyflwyno trwy'r System IRS ar y we i Lywodraeth y DU. Hefyd, mae systemau

Atodiad 1

electronig mewnol yn cadw data am weithgarwch diogelwch tân ac atal tanau er enghraifft; a gwybodaeth ariannol.

- Hefyd, mae'r Gwasanaeth wedi cymryd rhan unwaith eto mewn proses Sicrwydd Gweithredol Darparu Gwasanaethau rhwng y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru. Y Prif Lwybrau Ymholi yn 2011-12 oedd yr Ystafell Reoli a Gweithrediadau. Ar ôl cwblhau hunanasesiad, gwahoddodd y Gwasanaeth dîm o'r ddau wasanaeth arall i gynnal adolygiad cymheiriaid a gwneud argymhellion ar gyfer gwella yn seiliedig ar eu canfyddiadau.

Rheoli Risg a Chynllunio Parhad Busnes

Y Grŵp Gweithredol sy'n gyfrifol am y gofrestr risg corfforaethol lefel uchel, am ei ddatblygu a'i adolygu.

Hefyd, mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi polisi Rheoli Parhad Busnes. Fel rhan o'r Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2010-11 hyd at 2012-13, bydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer parhad busnes yn gynhwysfawr ac yn sicr. Er mwyn gwneud hyn, bydd y Gwasanaeth yn hyrwyddo pwyslais o'r newydd ar symud cynlluniau yn eu blaenau a datblygu rhai newydd, a rhoi'r un pwys ar reoli parhad busnes yn gorfforaethol ac yn weithredol, a hynny er mwyn sicrhau nad oes yr un maes wedi ei anghofio, a bod y cynlluniau adfer yn rhai cadarn.

Er mwyn gwneud hyn, bydd y Gwasanaeth yn:

- Diffinio a dyrannu'n glir y cyfrifoldeb am Reoli Parhad Busnes yn y Gwasanaeth.
- Datblygu rhaglen o brofi ac ymarfer i wirio pa mor ddilys yw'r cynlluniau cyfredol.

Yn benodol yn 2012-13, bydd y Gwasanaeth yn:

- Parhau i ddatblygu cynlluniau parhad busnes unigol ar gyfer swyddogaethau, gyda chynlluniau cysylltiedig yn ymwneud â phrofi ac ymarfer.
- Parhau i ddatblygu gallu'r gwasanaeth i wrthsefyll tarfiadau yn gyffredinol, gan gynnwys o ganlyniad i weithredu diwydiannol gwirioneddol neu'r bygythiad o hynny.
- Sicrhau Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda darparwr Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol.
- Datblygu cynllunio ar gyfer olyniaeth yn y gweithlu, a chyflwyno Llwybrau Datblygu Gyrfa.
- Parhau i ddatblygu a chynllunio ar gyfer y prosiect Cymru Gydnerth (Yr Ystafell Reoli).
- Integreiddio trefniadau RhPB y Gwasanaeth gyda gofynion adrodd Llywodraeth Cymru ar Ymaddasu i Newid Hinsawdd.
- Gwella cydnerthedd y rheolaeth o'r gweithlu trwy gael mwy o hyblygrwydd.

Y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella

Trwy broses ffurfiol o ddatblygu Cynllun blynyddol i Leihau Risg a Gwella, sy'n cynnwys amcanion strategol yr Awdurdod Tân ac Achub, mae'r Aelodau a'r Swyddogion yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth berthnasol, megis:

- lefelau perfformiad a lefelau gweithgarwch yn y gorffennol;
- yr heriau a'r newidiadau a ddisgwylir yn y dyfodol;
- y risgiau sy'n hysbys ers asesiadau blaenorol a newydd;
- argymhellion adroddiadau archwilio allanol, adroddiadau archwilio mewnol, hunanasesiadau ac adolygiadau cymheiriaid; ac arolygaethau penodol (e.e. yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) a chyrrff (e.e. Comisiynydd y Gymraeg).

Caiff Risgiau Corfforaethol a Risgiau Cymunedol eu hystyried mewn ffordd integredig yn ystod y broses hon.

Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella dan ganllawiau statudol newydd a gafwyd yn dilyn dyfodiad Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Roedd y cynllun yn cynnwys cyfrif o berfformiad am yn ôl ar gyfer 2009-10, cyfrif o'r cynlluniau gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn gyfredol, a'r saith Amcan Gwella a osodwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2011-12. Yna, datblygwyd rhagor o amcanion o ganlyniad uniongyrchol i benderfyniad yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2010 i rewi'r gyllideb flynyddol ar £32 miliwn o 2011-12 hyd at 2013-14.

Yn ystod 2011 bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflwyno trefniadau am y tro i symud dyddiad cyhoeddi'r Cynlluniau Gwella 3-6 mis ymlaen er mwyn i'r gwaith o'u llunio fod yn fwy cyson â'r cylchoedd cynllunio ariannol, ond nid oedd yn bosibl cael y caniatâd angenrheidiol i wneud y newidiadau erbyn 2012-13.

O gofio bod angen i'r Awdurdodau Tân ac Achub osod amcanion gwella bob blwyddyn, nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i'r amcanion newid bob blwyddyn, nac ychwaith gael eu gwireddu o fewn blwyddyn.

Felly, penderfynodd Panel Gweithredol yr Awdurdod, yn ei gyfarfod ym mis Mai 2011, oherwydd:

- cwmpas eang yr amcanion presennol sydd eisoes yn y Cynllun i Leihau Risg a Gwella;
- yr angen i ganiatáu amser i gydgrynhoi'r amcanion presennol ar adeg pwysau cynyddol oherwydd lleihad mewn cyllidebau;
- amserlenni tynn ac annisgwyl ar gyfer cyhoeddi cynllun 2012-13 erbyn diwedd mis Hydref 2011, yn hytrach nag ar ddiwedd Mawrth 2012; a
- phenderfyniad Llywodraeth Cymru i ohirio llunio Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub, gan adael Fframwaith 2008-11 yn ei le am y tro;

y dylai'r Awdurdod gario'r un amcanion drosodd i 2012-13 ag a oedd wedi eu mabwysiadu ar gyfer 2011-12. Cadarnhawyd y penderfyniad hwn gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2011, a chymeradwyo'r amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2011.

Atodiad 1

Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynglŷn â newid dyddiad cyhoeddi Cynlluniau Gwella'r ATA, o fod cyn gynted ag y bo modd yn rhesymol ac ymarferol ar ôl 30 Medi i cyn gynted ag y bod modd yn ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun yn ymwneud â hi. Bwriad y cynnig yw dod â chynllunio gwelliannau i gyd-fynd fwy â chynllunio ariannol.

Yn unol ag Adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, adroddir ynghylch perfformiad yn erbyn amcanion y flwyddyn ariannol – h.y. erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi.

Grŵp Llywio TGCh

Arweiniodd adolygiad allanol o'r adran TGCh at ffurfio Grŵp Llywio TGCh. Caiff ei gadeirio gan un o'r prif swyddogion sy'n gyfrifol am TGCh, ac mae hefyd yn cynnwys y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei gadeirio a'r ddau Brif Swyddog Tân Cynorthwyol arall, yn ogystal â Rheolwr TGCh. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys:

- Cyfrifoldeb am ddiffinio polisiâu a gweithdrefnau TGCh y Gwasanaeth, gan gynnwys y polisi diogelwch.
- Monitro'r modd y mae'r Polisi TGCh yn cael ei ddefnyddio a'i weithredu, a pherfformiad TGCh yn y Gwasanaeth
- Datblygu'r strategaeth TGCh, a bod yn gyfrifol am adolygu a derbyn achosion busnes ar gyfer buddsoddiadau mewn TGCh gan wahanol adrannau
- Cyfrifoldeb am adolygu a chymeradwyo caffaeliadau mawr ym maes TGCh, a goruchwyllo'r modd y mae prosiectau TGCh mawr yn cael eu rhoi ar waith.

3. Yn ogystal â'i strwythur pwyllgorau mewnol, a'i reolaeth o ddydd i ddydd, mae'r Gwasanaeth hefyd yn agored i adolygiad allanol o'i brif systemau er mwyn sicrhau bod ei systemau'n effeithiol:

Archwilio Mewnol

Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn awgrymu bod angen swyddogaeth Archwilio Mewnol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau "[w]neud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol." Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn ei gofyn yn benodol i "gorff perthnasol gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol yn unol ag arferion archwilio mewnol priodol."

Mae'r Awdurdod yn cael ei swyddogaeth Archwilio Mewnol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'i Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar y Trysorlys a Gwasanaethau Ariannol. Mae'r Gwasanaeth, sy'n annibynnol o ran ei waith cynllunio a'i weithrediad, yn cydymffurfio â Chod Archwilio Mewnol CIPFA, ac mae wedi ei baratoi i roi sicrwydd fod yr Awdurdod yn cynnal systemau digonol o reolaeth rheolaeth fewnol, ac mae'n gwneud argymhellion ar ffyrdd i wella'r rhain pan deimla fod angen.

Gall Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio gael gafael yn uniongyrchol ar y Prif Swyddog Tân, pob lefel o reolwyr, a'r aelodau etholedig.

Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei gyflenwi ar sail asesiad angen, sef ffordd yn seiliedig ar risg o benderfynu beth yw anghenion yr Awdurdod ar ddechrau pob blwyddyn, ac mae hyn wedi ei nodi mewn cynlluniau gweithredol a gyflwynir bob blwyddyn i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio.

Yng Nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 18 Mehefin 2012, cyflwynwyd 'Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol ar gyfer 2011/12', er mwyn dangos y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn honno, ynghyd â'r Cynllun Archwilio Drafft ar gyfer 2012/13.

Yn ystod 2011/12, cwblhawyd 58 o ddiwrnodiau adolygu gan yr adran Archwilio Mewnol, a chawsant eu treulio yn cynnal 5 archwiliad yn y meysydd canlynol:

Maes Archwiliadwy	Critigol	Pwysig	Canolig	Bach	Cyfanswm	Cytunwyd gan y Rheolwyr	Barn Archwilio
Gorsafoedd y system ar gael yn ôl y galw – Ynys Môn a Gwynedd	0	0	4	4	8	8	Boddhaol
Rheoli'r Fflyd	0	0	4	2	6	6	Da
Cyfrif Terfynol – Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl	0	0	4	0	4	4	Boddhaol
Ymchwiliad Arbennig	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	*Amh.
Menter Twyll Cenedlaethol	0	0	0	0	0	0	Da
Cyfansymiau	0	0	12	6	18	18	
						Da	2
						Boddhaol	2
						Digonol	0
						Anfoddhaol	0

* Amhriodol rhoi Barn Archwilio ar yr ymchwiliad arbennig a gynhaliwyd.

Atodiad 1

Mae pob archwiliad yn cael ei ddilyn gan arolygiad archwilio chwe mis yn ddiweddarach i weld a yw'r argymhellion yn yr adroddiad wedi cael eu dilyn i fyny. Dyma'r archwiliadau dilynol a gynhaliwyd yn 2011/12:

Disgrifiad	Dyddiad yr Archwiliad	Dyddiad arfaethedig yr archwiliad dilynol	Dyddiad yr archwiliad dilynol	Dim argymhellion	Argymhellion yn aros	Barn ddiwygiedig yr Archwiliad
Gorsafoedd y system yn ôl y galw - FIN 8s a Stocrestrau	Medi-10	Rhag-11	Rhag-11	8	2	Boddhaol
Rhyddid Gwybodaeth	Ion-11	Meh-11	Medi-11	4	0	Da
Diogelwch TG	Mai-11	Tach-11	Chwe-12	7	1	Da
*Gweithio mewn Partneriaeth ar Ddiogelwch Cymunedol	Mai-11	Meh-12		20		

*Trefnwyd cynnal archwiliad dilynol Gweithio mewn Partneriaeth ar Ddiogelwch Cymunedol ym Mehefin 2012

Adroddir ynghylch canlyniadau'r archwiliadau hyn i'r Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, y Rheolwr Cyllid a'r rheolwr priodol ar gyfer cymryd camau os oes angen.

Yn yr un cyfarfod, cyflwynodd yr adran Archwilio Mewnol ei Ddatganiad Sicrwydd Blynyddol fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer CIPFA ar Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol 2006. Yn ei farn archwilio, casglodd y Pennaeth Archwilio fod gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru brosesau rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol i reoli'r modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei amcanion.

Archwilio Allanol

Mae KPMG, ar ran Swyddfa Archwilio Cymru, wedi parhau i ddarparu gwasanaeth archwilio allanol i'r Awdurdod yn 2011/12, felly mae effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol yn seiliedig ar eu gwaith hwy.

Ym mis Medi 2011, cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG ei Adroddiad ar 'Archwiliad o Ddatganiadau Cyfrifyddu' a oedd yn nodi eu bwriad i gyhoeddi Adroddiad yr Archwilydd diamod ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig am 2010/11. Roedd yr adroddiad manwl yn cadarnhau bod datganiadau cyfrifyddu'r Awdurdod yn rhoi golwg wir a theg o'r sefyllfa ariannol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2011.

Yn dilyn dyfodiad Deddf Llywodraeth Leol 2009, aeth yr Awdurdod drwy ei ail Asesiad Gwella Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2011/12, gan arwain at gyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol yn Ionawr 2012. Mae'r Adroddiad yn edrych yn ôl ar ffyrdd y mae'r Awdurdod yn gwella ac yn darparu ei wasanaethau.

Rhennir adroddiad eleni yn dair prif adran, gan ymdrin â'r modd y mae'r Awdurdod yn cynllunio, darparu a gwerthuso gwelliant.

Atodiad 1

Ar y cyfan, roedd yr adroddiad yn dod i'r casgliad fod gan yr Awdurdod drefniadau da yn eu lle i sicrhau gwelliant, a'i fod yn gwneud yn dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt; ond nid oes digon o gydbwysedd wrth gynllunio, gwerthuso ac adrodd ar berfformiad, ac nid yw'n ddigon seiliedig ar ganlyniadau. Dyma grynodedb o'r prif gasgliadau:

- Mae gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn eu lle i fynd i'r afael â blaenoriaethau ac ymateb i awgrymiadau blaenorol ar gyfer gwella;
- Mae gan yr Awdurdod ffordd gadarn o reoli arian, ond oherwydd maint y newid sydd ei angen, rhaid cael arweiniad clir;
- Mae ffordd yr Awdurdod o reoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliant, ond mae gwendidau o ran llywodraethu a pherfformiad;
- Mae trefniadau cyfredol yr Awdurdod ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant;
- Mae'r Awdurdod yn cwrdd â'i ymrwymadau statudol mewn perthynas â Deddf yr Iaith Gymraeg.

Hefyd, daeth yr adroddiad i'r casgliad fod yr Awdurdod wedi cyflawni llawer o'r hyn a fwriadodd yn y blaenoriaethau a nododd:

- Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11.
- Mae'r Awdurdod yn cyfrannu at atal tanau a gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, ac er bod nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau wedi cynyddu y llynedd, mae'r tueddiad tymor hir am i lawr.
- Mae'r Awdurdod yn brysur yn datblygu rhagor o ffyrdd arloesol ac effeithlon i ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi ei farn am asesiad yr Awdurdod ei hun o'i berfformiad a'i drefniadau. Daeth i'r casgliad fod gan yr Awdurdod fecanweithiau ar gyfer monitro perfformiad, ond mae angen iddo fod yn fwy cytbwys wrth werthuso ac adrodd am berfformiad, a chanolbwyntio ar amcanion gwella fel bod darlun cliriach o gynnydd yr Awdurdod yn erbyn ei amcanion gwella.

Yn dilyn cyflwyno'r Adroddiad Gwella blynyddol, cyflwynir y Llythyr Archwilio Blynyddol gan ei archwilwyr allanol fel rhan o'r adroddiad i'r Awdurdod a'r cyhoedd, ac mae hyn yn cyflawni cyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r llythyr yn nodi ei brif negeseuon sy'n codi o ganlyniad i'r gwaith archwilio a wnaed yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Cafodd yr adroddiad a ddaeth i law ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio ar 30 Ionawr 2012 i'w gymeradwyo cyn ei gynnwys yn yr Adroddiad.

Roedd y prif ganfyddiadau sy'n codi o'r llythyr yn dod i'r casgliad fod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cydymffurfio â'i ofynion o ran adrodd ariannol a gwella perfformiad, derbyn barn archwilio diamod ar y datganiadau cyfrifyddu, cadarnhau eu bod yn rhoi golwg gwir a theg o drafodion ariannol yr Awdurdod a'r Cynllun Pensiwn. Nodwyd y meysydd canlynol yn ystod yr archwiliad cyfrifon:

Atodiad 1

1. Oddi ar 2010/11 roedd angen i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio eu cyfrifon ar sail Safonau'r IFRS. Mae dyfodiad y safonau newydd hyn wedi rhoi rhagor o ofynion mawr ar staff cyllid yr Awdurdod. Er gwaethaf y pwysau ychwanegol, cafodd y cyfrifon eu llunio erbyn y dyddiad statudol, ond nodwyd y materion canlynol mewn perthynas â'r cyfrifon:

- Roedd y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2009-10 yn pwysleisio pwysigrwydd llunio mantolen agoriadol a chyfres ddrafft o gyfrifon IFRS cyn gynted ag y bo modd. Mae nifer y datgeliadau a'r diwygiadau i'r Datganiad o Gyfrifon yn dangos bod amserlen y prosiect wedi llithro, a bod tanamcangyfrif o faint o waith a oedd i'w wneud. Fodd bynnag, llwyddwyd i gyrraedd pob dyddiad oherwydd cydweithio agos rhwng y fîm cyllid a'r fîm archwilio.
- Roedd yr oedi wrth lunio'r Datganiad o Gyfrifon wedi effeithio ar waith archwilio'r adroddiad Cyfrif Llywodraeth Gyfan (CLIG), ni dderbyniwyd pecyn diwygiedig y CLIG yn ymgorffori'r newidiadau i'r datganiadau terfynol tan 27 Medi. Ni lwyddwyd i gyrraedd dyddiad Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno adroddiad archwiliedig, sef 30 Medi, gan nad oedd digon o amser i gwblhau'r archwiliad. Dylai'r Awdurdod sicrhau bod pecynnau diwygiedig y CLIG yn cael eu cwblhau'n brydlon, a'u trosglwyddo i'r fîm archwilio gyda'r ddogfennaeth ategol.

2. Mae'r adolygiad o drefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi cael ei seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon, yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a wnaed fel rhan o'r Asesiad Gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (2009). Bydd prif ganfyddiadau'r olaf yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Hefyd, tynnwyd sylw at y materion canlynol:

- Mae'r Awdurdod wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau ar gyfer cynllunio tymor canolog, gan sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â'i heriau ariannol.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol dan ei gylch gorchwyl am ddarparu rheolaeth a sicrwydd ariannol, adnoddau a chyffredinol; mae hyn yn cynnwys ystyried adroddiadau Archwilio Mewnol. Gellir gwneud gwelliannau i'r ffurf o adrodd am ganfyddiadau Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio. Dylid darparu crynodeb ysgrifenedig (yn hytrach nag ar lafar) o waith Archwilio Mewnol yn y cyfnod, sy'n nodi'r gwaith a wnaed a'r casgliadau, ymhlith papurau'r Pwyllgor Archwilio fel bod yr Aelodau'n gallu ystyried materion o flaen llaw.
- Mae'r Awdurdod wedi atgyfnerthu ei broses rheoli risg trwy ddatblygu Cofrestr Risg Corfforaethol. Caiff hyn ei drafod a'i fabwysiadu gan y Panel Gweithredol cyn bo hir.

Adolygiad o Brif Faterion y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2010/11

Yn ystod yr adolygiad y flwyddyn flaenorol, sef 2010/11, tynnwyd sylw at y pedwar mater canlynol y mae angen ymdrin â hwy:

1. Ffurfioli Polisi Rheoli Risg yr Awdurdod

Cafodd y Gofrestr Risg Corfforaethol ei ailwampio ym mis Mawrth 2012, a'i gyflwyno i'r Grŵp Gweithredol ar 11 Ebrill 2012 pan gafodd ei ohirio oherwydd bod angen rhagor o waith. Bydd y gofrestr ddiweddaedig yn cael ei chyflwyno i'r cyfarfod o'r Grŵp Gweithredol ar 6 Gorffennaf 2012 i'w gymeradwyo'n derfynol.

Mae'r gofrestr ddiweddaedig yn cynnwys 9 o risgiau lefel uchel mewn 5 maes, sef Ariannol, Gwleidyddol, Adnoddau, Cynllunio a Materion Cenedlaethol.

2. Ffurfioli Polisi Partneriaethau'r Awdurdod

Yn dilyn yr archwiliad mewnol o Ddiogelwch Tân Cymunedol, mae'r Gwasanaeth wedi gweithredu nifer o'r argymhellion a oedd yn yr adroddiad. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau ym meysydd sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad o fewn maes meithrin perthynas â'r trydydd sector.

Hefyd, ffurfiolwyd darpariaeth protocolau rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau partner sy'n ymwneud â chynllun y Ffenics a chyda sefydliadau'r sector gwirfoddol sy'n darparu Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref ar ein rhan.

Lluniwyd dogfen ganllawiau ar gyfer Addysg Diogelwch Cymunedol mewn ysgolion, a chadarnhad o amcanion y bartneriaeth yn y prosiect amlasiantaethol, Criw Craidd. Hefyd, lluniwyd cofrestr risg, ac asesiad risg ar gyfer meysydd gwaith o fewn Diogelwch Cymunedol.

3. Adolygu'r Cynllun Dirprwyo

Mae hyn wedi ei ohirio tan ar ôl yr Awdurdod Tân ac Achub newydd ym mis Mai 2012 pan fydd yn briodol adolygu'r Cynllun.

Mae'r Cynllun yn dirprwyo'r pŵer i wneud penderfyniadau ar ran yr Awdurdod i'r Prif Swyddog Tân mewn 11 o feysydd.

Hefyd, mae'r Cynllun yn nodi'n glir y meysydd lle nad yw'r dirprwyo'n berthnasol.

4. Hyrwyddo'r Polisi Chwythu'r Chwiban ymhlith y staff

Cafodd ymgyrch ei chynnal trwy'r adran Cyfathrebu Corfforaethol yn Ionawr 2012 i dynnu sylw staff ar bolisi'r Awdurdod ar Chwythu'r Chwiban, ac esbonio'i brif bwyntiau.

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys erthygl yn Y Fflam, sef cylchgrawn mewnol trimisol y Gwasanaeth. Roedd yr erthygl yn annog y staff i ddysgu mwy am bolisi Datgeliadau Cyhoeddus y Gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol y gallant roi gwybod am feysydd pryder heb ofn dial.

Prif Faterion Llywodraethu

Barn y Swyddogion yw nad yw'r adolygiad o drefniadau llywodraethu ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12 wedi tynnu sylw at unrhyw bryderon mawr. Mae'r trefniadau presennol yn addas i'r diben, ac yn ddigonol ar gyfer cyrraedd nodau corfforaethol yr Awdurdod.

Tynnir sylw at ambell fater bychan isod, mae'r swyddogion priodol yn ymdrin â hwy, a chaiff y cynnydd ei fonitro yn y flwyddyn sy'n dod sef 2012/13, a'i adrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ystod yr adolygiad y flwyddyn nesaf.

Materion i ymdrin â hwy yn 2012/13:

1. Parhau i adeiladu ar waith y blynyddoedd cynt mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod ar Chwythu'r Chwiban er mwyn cael gweithle agored a thryloyw.
2. Gwelliannau i'r wybodaeth a adroddir i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch canfyddiadau'r Archwiliad Mewnol. Cyflwyno crynodeb ysgrifenedig (yn hytrach na llafar) am y gwaith Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod.
3. Ffurfioli'r amserlen diwedd blwyddyn i sicrhau bod y Datganiad o Gyfrifon yn cael ei gwblhau mewn da bryd fel bod y pecyn Cyfrifon Llywodraeth Gyfan yn cael ei gyflwyno yn ei ffurf derbyniol i'w archwilio, gyda digon o amser i'w adolygu er mwyn gallu cwrdd â dyddiad cau Llywodraeth Cymru.
4. Datblygu trefniadau cyfredol yr Awdurdod ar gyfer TGCh i sicrhau bod ganddo'r gallu, o fewn ei adnoddau sgiliau technegol, i gyflwyno ei gynlluniau heb amharu ar ansawdd gwasanaethau, gan gynnwys datblygu strategaeth newydd ar gyfer TGCh dros bum mlynedd.
5. Gweithio gyda'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru i wella rhagor ar eu cynlluniau refeniw tymor canolig.